# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 26 Medi 2018

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6363

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Broses o Graffu ar y Gyllideb Ddrafft

(09.30-10.30)

Cathy Madge, Gwneuthurwr Newid, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Eurgain Powell, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

## 3 Papur(au) i'w nodi

(10.30 - 10.35)

### 3.1 Ymateb gan Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Gwaith Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16

(Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**3.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18**

(Tudalen 3)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**3.3 Ymateb gyda'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ei Waith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19**

(Tudalennau 4 - 11)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

**3.4 Ymateb gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i adroddiad y Pwyllgor ar Fframweithiau Cyffredin ar gyfer yr Amgylchedd ar ôl Brexit**

(Tudalennau 12 - 13)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (Saesneg yn unig)

**3.5 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar drefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit**

(Tudalennau 14 - 25)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru

**3.6 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus**

(Tudalennau 26 - 32)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru

**3.7 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar fframweithiau cyffredin ar gyfer yr amgylchedd ar ôl Brexit**

(Tudalennau 33 - 40)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb Llywodraeth Cymru

**3.8 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023 a Chynllun Gweithredu 2018-2019**

(Tudalen 41)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

**3.9 Gohebiaeth ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ynghylch craffu ar gyllidebau carbon**

(Tudalennau 42 - 45)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

**3.10 Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft**

(Tudalennau 46 - 52)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

**3.11 Ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft**

(Tudalennau 53 - 56)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

## 5 Trafod yr adroddiad drafft ar effaith Brexit ar bysgodfeydd yng Nghymru

(10.35 - 11.00) (Tudalennau 57 - 78)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad Drafft

## 6 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Amaethyddiaeth

(11.00 - 11.20)

## 7 Papur ar waith yn y dyfodol

(11.20 - 11.40) (Tudalennau 79 - 84)

**Dogfennau atodol:**

Blaenraglen Waith

## 8 Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch monitro Brexit

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref: cx18058
Eich cyf/Your ref:

Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff

Mr Nick Ramsay AM for Monmouth
Chair
National Assembly for Wales, Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

9 July 2018

Dear Nick,

**Natural Resources Wales Response to Annual Report and Accounts Scrutiny 2015/16**

I wanted to update you on the latest position with regard to the progress Natural Resources Wales has made in addressing the recommendations of the Committee in respect of the long-term sales contracts that were let in 2014.

Following our last update in November 2017 we have continued to implement measures outlined in our Action Plan which includes training staff on State Aid and Public Law, a risk assessment of the commercial portfolios and a commercial governance policy outlining NRW's key principles. This is designed to ensure that all NRW's commercial activity adheres to relevant legislation, Managing Welsh Public Money and our framework document.

The original long-term sales contract were all terminated by Natural Resources Wales in March 2017 and new contracts were let in order to help the market transition to new arrangements during 2017/18. Wales Audit Office will shortly conclude their audit work on our 2017/18 Annual Report and Accounts which will reflect ongoing issues with these new transitional contracts. I am profoundly disappointed that the lessons from the work of the Wales Audit Office and your

Tŷ Cambria • 29 Heol Casnewydd • Caerdydd • CF24 0TP
Cambria House • 29 Newport Road • Cardiff • CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Committee have not yet been fully learned. I totally accept the Auditor General's findings and I am ensuring that NRW is taking these issues incredibly seriously, so that they are never repeated.

Since taking up office in February I have taken the decision to re-organise the commercial services function within NRW and will be appointing Ernst and Young to carry out a comprehensive independent review of the key commercial business areas, governance arrangements and the behavioural and cultural aspects which bear on all of the above.

Working with Karen Balmer, our Audit and Risk Assurance Committee Chair, we will bring a renewed focus to bear on implementing the necessary improvements in this part of our business and insuring that the improvements are of auditable rigour. We are strengthening the Board oversight of these issues and we are appointing a non-Board member to our Audit and Risk Assurance Committee who will bring additional public-sector governance and finance expertise.

I am fully committed to learning lessons and making sure that we make the necessary improvements and that our staff have the right support and protection to do the right thing in the right way in future. I would ask that I be allowed to continue with this work and present the findings at the Public Accounts Committee in the autumn.

A copy of this letter has been sent to Andrew Slade, Director General – Economy, Skills and Natural Resources at Welsh Government, and our sponsorship team.

Yours sincerely,

Clare Pillman
Chief Executive and Accounting Officer
Natural Resources Wales

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Eitem 3.2

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

25 Gorffennaf 2018

Annwyl Mike,

**Adroddiad a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18**

Byddwch yn cofio i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus graffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015-16 yn ystod y gwanwyn yn 2017 ar ôl i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi amod ar y cyfrifon. Cyfeirir at hyn yn y llythyr a anfonwyd gennyf ar 27 Mehefin 2017. Ar ôl cyhoeddi Adroddiad y Pwyllgor, rydym wedi cael diweddariadau rheolaidd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar hynt y gwaith o weithredu'r gwahanol gamau a nodwyd ganddynt o ganlyniad i'n hadroddiad.

Fel y gwyddoch, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol amod ar Gyfrifon 2017-18 ar 16 Gorffennaf ac mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal sesiwn graffu gyda Clare Pillman, Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru ar 24 Medi.

Gwn fod eich Pwyllgor yn craffu ar Cyfoeth Naturiol Cymru bob blwyddyn yn nhymor yr hydref a byddwn yn ddiolchgar pe gallech godi'r mater hwn gyda nhw.

Byddaf yn parhau i roi gwybod i chi am waith y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

30 Gorffennaf 2018

Annwl Mike,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19**

Wedi ichi graffu ar gyllideb ddrafft 2018-29 Llywodraeth Cymru, cyhoeddoch chi adroddiad ym mis Rhagfyr 2017 oedd yn cynnig nifer o argymhellion a gwnaethon ninnau ymateb yn ffurfiol iddynt ym mis Ionawr 2018. Yn ein hymateb, roedd 8 argymhelliad yr oedd angen ymateb ffurfiol pellach arnynt mewn 6 mis.

Hoffwn gadarnhau, ar ran Hannah Blythyn AC, Gweinidog yr Amgylchedd a finne, ein bod yn y fan hon yn ymateb yn ffurfiol i'r argymhellion hynny. Bydd ymatebion pellach i ddau o'r argymhellion ymhen 6 mis.

Cofion,

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Adroddiad cynnydd gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn dilyn y Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19**

**27 Gorffennaf 2018**

---

**Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad:**

**Argymhelliad 3**

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor o fewn chwe mis ar ôl ystyried cynyddu targedau ailgylchu awdurdodau lleol.

**Ymateb**: **Derbyn**

Mae targedau ailgylchu Awdurdodau Lleol yn rhan annatod o'r ymgynghoriad ar yr adolygiad o'r strategaeth wastraff genedlaethol ar gyfer Cymru. Bydd yr adolygiad hwn yn cael ei lywio gan ystyriaeth fanwl o gostau a manteision newidiadau posibl i dargedau ailgylchu Awdurdodau Lleol. Cyhoeddir yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2018.

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

Mae targedau ailgylchu posib ar gyfer awdurdodau lleol wrthi'n cael eu modelu, gyda golwg ar eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar yr adolygiad o strategaeth wastraff genedlaethol Cymru. Mae'r ymgynghoriad yn debygol o gael ei gyhoeddi yn yr Hydref yn 2018 ac mae Llywodraeth Cymru'n gobeithio cyhoeddi'r ymatebion o fewn chwe mis ar ôl ei lansio.

**Argymhelliad 5**

Dylai Ysgrifennydd y Cabinet wneud asesiad o'r gofynion adnoddau staffio tymor byr a chanolig yn ei hadran yn sgil Brexit. Dylai Ysgrifennydd y Cabinet adrodd i'r Pwyllgor ynghylch yr asesiad hwnnw o fewn chwe mis.

**Ymateb**: **Derbyn**

Mae ymarfer a gynhaliwyd yn gynharach eleni i asesu'r gofynion staffio eisoes wedi arwain at ganfod bod angen nifer o swyddi dros dro ac mae trefniadau ar y gweill i lenwi'r swyddi hynny. Ar gyfer y dyfodol, bydd yr angen am adnoddau yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r goblygiadau i Gymru ddod yn gliriach. Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn ym mis Mehefin 2018.

Mae goblygiadau ariannol Brexit o fewn fy mhortffolio yn cael eu hadolygu'n barhaus, ac mae trafodaethau wedi'u cynllunio er mwyn cael rhagor o gyllid i gynorthwyo gyda'r costau ychwanegol ar gyfer adnoddau.

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

Ym mis Medi 2017, cytunais y byddwn yn creu 50 o swyddi newydd i ddelio â gwaith Brexit gan ddefnyddio arian o gyllideb rhaglen y gyfarwyddiaeth. Mae tua hanner y swyddi hyn eisoes wedi'u llenwi ac rydyn ni wrthi'n recriwtio'r gweddill. Hefyd, mae llawer o ailflaenoriaethu wedi'i wneud er mwyn gallu cynnal y prosesau a'r trafodaethau sydd eu hangen ar fyrder mewn perthynas â Brexit. Mae hyn wedi caniatáu inni sefydlu rhaglenni gwaith Brexit clir ym meysydd deddfwriaeth, parodrwydd gweithredol a diwydiannol, dylunio polisïau allweddol at y dyfodol ynghyd ag ymchwilio'n fanwl i bolisïau a datblygu fframweithiau ar gyfer 19 o feysydd polisi penodol.

Mae hyn, ynghyd â gwaith manwl diweddar â Defra ynghylch ein parodrwydd gweithredol (lle ceir 64 o brosiectau penodol), yn dangos maint y gwaith sy'n gorfod cael ei wneud. Hefyd yn sgil Brexit, bydd Gweinidogion Cymru'n gorfod ysgwyddo cyfrifoldebau newydd a bydd angen inni ddatblygu'r arbenigedd polisi er mwyn gallu rhoi iddynt y lefel ofynnol o gyngor a sicrwydd iddynt allu ysgwyddo'u swyddogaethau naill ai ar wahân neu yng nghyd-destun fframweithiau ehangach y DU.

Nid yw'r adnoddau sydd gennym, hyd yn oed gyda'r 50 o staff ychwanegol, yn ddigon i wneud y tasgau hyn. Bydd angen bwrlwm o weithgarwch am y 2½ flynedd nesaf tan ddiwedd 2020 i roi'r fframweithiau a'r systemau angenrheidiol yn eu lle ar gyfer y byd ar ôl Brexit. Mae angen datblygu technoleg gwybodaeth a systemau eraill yn ogystal â staff. Ar ben hynny, bydd angen cynyddu'r capasiti o'i gymharu â lefelau cyn Brexit i gynnal systemau gweithredu newydd, ysgwyddo cyfrifoldebau polisi ehangach a darparu fframweithiau gweithredu newydd ar lefel y DU.

**Argymhelliad 6**

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am y statws; cwmpas; unrhyw ymgynghoriad arfaethedig; ac amserlen ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig ynghylch amaethyddiaeth ac ynghylch pysgodfeydd.

**Ymateb**: **Derbyn o ran egwyddor**

Bydd amseriad a maint biliau amaethyddiaeth a physgodfeydd yn y dyfodol yn esblygu wrth inni barhau i negodi telerau ein hymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r ford gron o randdeiliaid yn ymwneud â llunio deddfwriaeth ar gyfer y dyfodol a byddant yn parhau i fod yn rhan o'r broses honno.

Bydd amseriad a chwmpas Bil Ymadael y DU a phriod filiau amaethyddiaeth a physgodfeydd priodol y DU hefyd yn cael eu hystyried gennyf mewn perthynas â deddfwriaeth yn y dyfodol . Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor pan fydd y sefyllfa'n gliriach.

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

Ein nod yw llunio Bil Amaeth Cymru i roi cymorth i'r sector amaeth yng Nghymru yn y dyfodol ar ôl gadael y EU. Ein gobaith yw rhoi'r ddeddfwriaeth hon ar waith cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn ac mewn da bryd i sicrhau y gall y cyfnod pontio graddol gael effaith.

Yn ogystal, yn unol  ag amserlen benodol ac am gyfnod dros dro, byddwn yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru ym Mil Amaeth arfaethedig Llywodraeth y DU sydd ar ddod a fydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gychwyn y cyfnod pontio i gynlluniau cymorth newydd nes y daw deddfwriaeth sylfaen Cymru i rym.

Roedd Defra am gyflwyno Bil Amaeth y DU cyn toriad yr haf ond ni fydd hyn yn digwydd nawr tan fis Medi. Mae cryn dipyn o drafodaethau'n cael eu cynnal o hyd rhwng adrannau ynghylch cwmpas y fframweithiau a'r cysylltiadau â'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Mae Defra wedi dangos nifer o gymalau inni a disgwyliwn weld y Bil cyfan cyn bo hir. Rydym yn aros o hyd i Defra allu dangos y cymalau sydd ym Mil Pysgodfeydd y DU inni.

Lansiwyd dogfen ymgynghori ar Brexit a'n Tir ar 10 Gorffennaf.

**Argymhelliad 10**

Rhaid i Lywodraeth Cymru, mewn trafodaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gadw llygad ar gapasiti CNC i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i swyddogaethau statudol.  Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad cychwynnol ar y mater hwn i'r Pwyllgor o fewn chwe mis.

**Ymateb**: **Derbyn**

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda CNC i adolygu eu gallu i gyflawni cyfrifoldebau a swyddogaethau statudol. Bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn ym mis Mehefin 2018.

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

Cafodd y Pwyllgor ymateb ym mis Mehefin 2018.

Mae CNC wedi cyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol at 2022 ac mae ei Fwrdd wedi cytuno ar Strategaeth Gyllid at 2022 a Chynllun Busnes 2018-19.

Mae'r gyllideb hael sy'n cael ei rhoi i CNC yn golygu ei fod yn cael gosod targedau uchelgeisiol.  Ond mae'n awyddus i wneud mwy.

Mae ei gynlluniau a'i strategaethau'n adlewyrchu ei flaenoriaethau. Mae swyddogaethau statudol CNC wedi newid ers hynny trwy Ddeddfau gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,  Deddf yr Amgylchedd

(Cymru) 2016 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r Deddfau hyn yn ei gwneud yn glir sut y dylai CNC gyda'i bartneriaid weithio a chyflawni dros y blynyddoedd i ddod.

Mae fy swyddogion yn dal i drafod y weledigaeth ar gyfer CNC gan gynnwys bwrw golwg strategol ar feysydd blaenoriaeth.

**Argymhelliad 11**

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ynghylch sut y bydd y £2.3 miliwn o gyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer y môr a physgodfeydd. Dylai hyn gynnwys maylion y cynlluniau gwario ar gyfer y £0.5 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y môr a physgodfeydd.

**Ymateb**: **Derbyn**

Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2018 yn manylu ar y cynlluniau gwario ar gyfer y gyllideb a ddyrennir ar gyfer y môr a physgodfeydd.

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

Mae fy swyddogion wedi darparu'r gyllideb, gan ddangos sut mae arian materion morol a physgodfeydd wedi'i neilltuo.

| **Maes Gwaith** | **Canran y gyllideb** | **Gwerth (£)** |
|---|---|---|
| Gwarchod bioamrywiaeth a natur y môr | 33 | £0.759m |
| Cynllunio Morol | 16 | £0.368m |
| Gorfodi rheolau'r môr a physgodfeydd | 29 | £0.667m |
| Cefnogaeth i'r Trydydd Sector | 9 | £0.207m |
| Polisi pysgodfeydd masnachol, dŵr croyw a dyframaethu | 7 | £0.161m |
| Diogelwch pysgotwyr | 5 | £0.115m |
| Ymgysylltu â Rhanddeiliaid | 1 | £0.023m |

Bydd y canlyniadau a ragwelir yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o gyllidebau'r Môr a Physgodfeydd.

Mae'r arian ychwanegol sydd wedi'i neilltuo yng nghyllideb 2018-19 wedi'i roi i'r meysydd blaenoriaeth allweddol hyn:

| **Maes** | **£m** |
|---|---|
| Gwaith ar Gynlluniau Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig | £0.150m |
| Gweithredu a gwaith trawsffiniol y Cynllun Morol | £0.050m |
| Gwaith monitro morol arall | £0.100m |
| Asesu pysgodfeydd a dyframaethu masnachol | £0.075m |
| Asesu'r effaith ar y rhwydwaith o Ardaloedd | £0.050m |

| Maes | £m |
|---|---|
| Morol Gwarchodedig | |
| Marchnadoedd ar gyfer pysgod o Gymru - Mynd i ddigwyddiadau tramor a'u gwerthuso | £0.075m |

**Argymhelliad 12**

Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am unrhyw drafodaethau â'r Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig wrth benderfynu sut y dylai'r arian ychwanegol ar gyfer y môr a physgodfeydd gael ei ddyrannu, gan gynnwys a roddwyd unrhyw ystyriaeth i ddull rheoli ardaloedd morol gwarchodedig ar sail ardal.

**Ymateb**: **Derbyn**

Mae £0.5 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i foroedd a physgodfeydd er mwyn ymdopi â phwysau cyllidebol ychwanegol. Mae'r pwysau hyn yn cael eu hysgogi i raddau helaeth gan y broses o baratoi ar gyfer Ymadael â'r UE a pharatoi sector y môr a physgodfeydd, y gwaith sydd ei angen ar gyfer gweithredu Deddf Cymru 2017, cam olaf datblygu a gweithredu Cynllun Morol cyntaf Cymru a'r angen i adeiladu ar ein rhaglen i helpu i sicrhau bod ein rhwydwaith o ardaloedd morol gwarchodedig yn cyflawni ac yn parhau i fod mewn cyflwr ffafriol. Gan fod y rhain feysydd gwaith sy'n datblygu, nid yw'n bosibl cynnig dadansoddiad o sut y bydd y £0.5 miliwn yn cael ei ddyrannu ar hyn o bryd. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu i'r Pwyllgor o fewn y 6 mis nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Llywio Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig i ystyried sut y gellid defnyddio peth o'r arian ychwanegol orau ar gyfer rheoli'r ardaloedd. O gofio'r pwysau ar adnoddau, byddem yn disgwyl gweld dull sy'n targedu gweithredu a gweithgaredd lle bydd yn cael yr effaith fwyaf ar wella a chynnal cyflwr y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn gyffredinol. Rhoddir diweddariad i'r Pwyllgor o fewn y 6 mis nesaf.

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

Mae'r Grŵp Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn gweithio at greu set o weithredoedd yn nhrefn eu blaenoriaeth ar gyfer rheoli safleoedd. Bydd potensial i'r gweithredoedd uchaf eu blaenoriaeth wella'r modd y caiff nifer o safleoedd eu rheoli. Mae'n briodol felly bod y gweithredoedd hyn yn cael blaenoriaeth o ran adnoddau.

Mae'r Grŵp Rheoli AMG yn cydnabod y byddai rhai awdurdodau rheoli lleol am gydweithio i wneud eu dyletswyddau statudol ar gyfer safle unigol. Bydd y cynllun yn cydnabod y gwaith hwn ac yn cyfeirio ato yn ôl y gofyn. Mae'r Grŵp Rheoli AMG yn cydnabod hefyd bod angen cyllido gweithgareddau peilot efallai ac mai grwpiau lleol ddylai'u cynnal o bosib. Bydd y cynllun yn nodi'r cyfleoedd hyn hefyd pan fyddant yn codi.

**Argymhelliad 13**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Parciau Cenedlaethol i ymchwilio i sut y gallant godi refeniw. Dylai hyn gynnwys eu cefnogi i ddatblygu cynlluniau i wireddu eu potensial ar gyfer cynhyrchu incwm. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd ar y cynnydd yn y chwe mis nesaf.

**Ymateb**: **Derbyn yn rhannol**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei fod er lles gorau'r Parciau Cenedlaethol a'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol os yw adnoddau sy'n cefnogi tirwedd yr ardaloedd yn deillio o ystod eang o ffynonellau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn ystod y gwaith ar Tirweddau'r Dyfodol i ymchwilio i ffyrdd o amrywio'r sylfaen gyllido a oedd yn cynnwys codi eu hincwm eu hunain. Er y gall dull o'r fath helpu i liniaru effaith toriadau yng nghyllideb yr Awdurdodau gan Lywodraeth Cymru, mae'n gydnabyddiaeth hefyd bod angen bwrw ymlaen â llawer o'r gwaith sy'n ategu dibenion Parciau Cenedlaethol mewn cydweithrediad ag ystod eang o bartneriaid sydd eisoes yn gwneud penderfyniadau gwario a all gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y dirwedd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio ymhellach gyda'r Parciau eu cynlluniau ar gyfer cynhyrchu refeniw ac yn rhannu profiad diweddar CADW gyda nhw. Er mai mater i Awdurdodau Parciau unigol yw datblygu cynlluniau yn benodol ar y mater hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod yn ddoeth cael polisïau a chynlluniau clir ar gyfer cynhyrchu refeniw sydd wedi ystyried rhinweddau a pheryglon posibl gwahanol ddulliau gweithredu.

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau ymchwilio ymhellach, gyda'r Parciau, i allu a pherfformiad y Parciau i gynhyrchu refeniw. Cafodd Gweinidog yr Amgylchedd gyfarfod â phob un o Awdurdodau'r Parciau ym mis Ebrill i drafod eu perfformiad ariannol, sut maen nhw'n trefnu'u cyfrifoldebau am weithgarwch masnachol o fewn a rhwng Awdurdodau, ac a oes ganddynt gynlluniau marchnata a buddsoddi cyfalaf. Roedd y Cyfarwyddwr Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn bresennol hefyd i rannu ei brofiad o welliannau diweddar ym mherfformiad CADW ac i helpu'r Gweinidog i graffu ar weithgareddau Awdurdodau'r Parciau. Mae lle gan y tri Awdurdod wella'u perfformiad yn hyn o beth. Bydd y Cyfarwyddwr Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon yn cwrdd â phob un o'r Awdurdodau yn eu tro i drafod ymhellach yr heriau strwythurol a diwylliannol y bydd yn rhaid eu hwynebu er mwyn gallu gwella. Bydd yn rhaid wrth fwy o gysondeb yn y modd y dehonglir ac y cofnodir perfformiad masnachol er mwyn gallu mesur newid.

**Argymhelliad 15**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r cynllun ernes caniau a photeli gwydr peilot yn yr Alban cyn bwrw ymlaen ag unrhyw waith treialu o'r fath yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y gwaith yn y maes hwn.

**Ymateb**:  **Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cyd-drafod yn fanwl â Llywodraeth yr Alban i rannu ei phrofiad o fentrau a chynlluniau peilot yn ymwneud â dychwelyd ernes ar gynwysyddion. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth bwyso a mesur yr astudiaethau dichonoldeb yng Nghymru. Byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor am y cynnydd gyda'r gwaith dichonoldeb ar ddychwelyd ernes.

**Y Sefyllfa Ddiweddaraf**

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n glos â Llywodraeth yr Alban a Defra i ystyried yr opsiynau ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes Cynwysyddion (DRS). Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei hymgynghoriad ar 27 Mehefin 2018, gan gynnig nifer o opsiynau. Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr Alban eu hystyried wrth lunio treialon yng Nghymru a chaiff y Pwyllgor ei hysbysu am unrhyw ddatblygiadau.

Eitem 3.4

Department for Environment Food & Rural Affairs

Nobel House
17 Smith Square
London SW1P 3JR

defra.helpline@defra.gsi.gov.uk
www.gov.uk/defra

**The Rt Hon Michael Gove MP**
From the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs

Mike Hedges AM
Chair of Climate Change, Rural Affairs and Environment Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

31 August 2018

By Email: SeneddCCERA@assembly.wales

Dear Mike,

**COMMON FRAMEWORKS FOR THE ENVIRONMENT AFTER BREXIT**

Thank you for your letter of 23 July enclosing a copy of the Committee's report 'Common Frameworks for the Environment after Brexit'. I was interested to see the Committee's views on the development of common frameworks.

The Framework Analysis, published by the UK Government in March, was a working document based on a provisional assessment of the situation. We are continuing to work in a constructive and collaborative manner with the Welsh Government and the other devolved administrations to refine the analysis. This includes looking at where common frameworks will or will not be required, and whether they should be legislative, non-legislative, or a combination of both.

My aim is to agree the most appropriate arrangements with my counterparts in the devolved administrations, based on a thorough consideration and shared understanding of all the relevant factors, policy area by policy area. I understand your concern that minimising the number of frameworks could result in a less integrated approach to transboundary issues, but my starting point is to identify where frameworks are necessary or, indeed, desirable, rather than to minimise the number of frameworks. I would also like to reassure you that environmental goals, which are shared with the Welsh Government, are being kept fully in mind as we consider the need for, and shape of, common frameworks.

With reference to the future right of citizens to challenge the application of environmental law, my department has published a consultation on environmental principles and governance. This includes proposals to establish a new, independent statutory body to hold government to account on environmental standards. We are consulting on whether this body should have the functions of undertaking scrutiny and providing advice in relation to environmental policy and law, investigating complaints from individuals and, if necessary, taking action to bring about the proper delivery of environmental law by government. In addition, the EU (Withdrawal) Act 2018 requires the UK Government to



POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

bring forward a draft Bill which would, among other things, confer powers upon a new body to take proportionate enforcement action, if necessary through legal proceedings, where it considers that government is not complying with environmental law.

As environmental governance is clearly a devolved matter in Wales, our consultation, as well as the relevant provisions in the EU (Withdrawal) Act 2018, are limited to England and reserved matters throughout the UK, for which the UK government has responsibility. I would nevertheless welcome the opportunity to co-design proposals to make sure they work across the whole of the UK, and we are therefore in discussion with the devolved administrations to establish whether they would like to take a similar approach.

I recognise the importance of engaging with the Welsh Government, the National Assembly for Wales and its committees, Welsh businesses, people and stakeholders. I and my ministerial team are engaging across the UK and I was delighted, recently, to accompany the Secretary of State for Wales to the Royal Welsh Show in Llanelwedd. You will of course be aware that the Prime Minister and the Chancellor of the Duchy of Lancaster carried out similar engagement at the Show. We are currently planning a further phase of discussions on frameworks, and will be considering how best to increase stakeholder engagement as this next phase progresses.

You mention options for developing the overarching intergovernmental arrangements. We agree there is a need to review the existing structures, including the Memorandum of Understanding, to make sure they are fit for purpose as we leave the EU. This was an outcome from the last Joint Ministerial Committee (Plenary), chaired by the Prime Minister in March. The UK Government and devolved administrations are now working together to take this forward.

It is important that the National Assembly for Wales has opportunities to inform the development of EU exit planning and preparations, which is why I was pleased to meet members of your Committee in May, as was the Minister for Agriculture, Fisheries and Food, George Eustice.

Thank you again for sharing your report.

With every good wish,

**Michael Gove**

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

**Hannah Blythyn AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd**
**Minister for Environment**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/LG/2658/18

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

24 Awst 2018

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich adroddiad ar y trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit.

Gweler yn amgaeedig ymateb ar ran Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

**Hannah Blythyn AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd
Minister for Environment

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

**Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit**

**Mehefin 2018**

**<u>Argymhelliad 1</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw'n cefnogi'r cam o sefydlu corff llywodraethu ar lefel y DU.**

**Ymateb: Derbyn**

Er mwyn pennu terfynau daearyddol addas ar gyfer corff llywodraethu amgylcheddol newydd, rhaid inni ddeall yn gyntaf beth yw'r pynciau llosg a'r bylchau. Nid yw'r bylchau hyn yr un fath ar draws y Deyrnas Unedig (DU) ac felly rhaid i unrhyw drefniant ategu a pharchu'r trefniadau a geir ym mhob gweinyddiaeth. Bydd yn rhaid ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys ei swyddogaethau, ei berthynas â strwythurau llywodraethu presennol Cymru gan gynnwys rôl y Cynulliad a sut y mae'n parchu'r cytundeb datganoli, cyn y gallwn benderfynu a fyddai corff llywodraethu ar lefel y DU yn briodol.

Mae Llywodraeth y DU wrthi'n cynnal ei hymgynghoriad ei hun ar yr Egwyddorion a'r Trefniadau Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Brexit ar gyfer Lloegr a'r meysydd a gedwir yn ôl - sy'n wahanol i bob gweinyddiaeth ddatganoledig. Mae'r ymgynghoriad hwn yn seiliedig ar ei dadansoddiad o'r bylchau a geir yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r bylchau yng Nghymru'n wahanol iawn i'r rheini a geir yn rhannau eraill y DU oherwydd natur y setliadau datganoli a'n hamgylchedd deddfwriaethol unigryw yma yng Nghymru. Rydym wrthi'n cynnal ein dadansoddiad ein hunain o'r bylchau llywodraethu yng Nghymru yng ngoleuni ein fframwaith deddfwriaethol ac wrth gwrs, ein mecanweithiau ar gyfer dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.

Bydd gofyn i'r ffyrdd yr awn ati i lenwi'r bylchau ateb y gofyn.  Bydd hynny'n golygu cynnal a gwella'n safonau amgylcheddol a hefyd bod yn gyson â'n ffordd flaengar ni o weithio yng Nghymru sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Rydym wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch beth yw'r potensial ar gyfer gweithio ar lefel y DU a goblygiadau hynny. Mae angen rhagor o wybodaeth am ei chynigion, yn enwedig o safbwynt y materion a 'gedwir yn ôl' inni allu penderfynu a yw ei chynigion yn cynnig sail addas ar gyfer corff Prydeinig yn hytrach na chorff Seisnig neu a ddylem ystyried model arall yn lle hynny.

Tan y cawn ragor o fanylion am gynigion Llywodraeth y DU a than inni gwblhau'n gwaith dadansoddi ni, fydd yn cynnwys trafod â'n rhanddeiliaid, mae'n rhy fuan eto dweud ai corff ar lefel y DU fyddai'n cynnig yr ateb mwyaf priodol. Rhown wybod i'r pwyllgor pan fydd gennym benderfyniad i'w gynnig ynghylch priodoldeb corff ar lefel y DU.

Byddwn yn parhau i siarad â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar y mater hwn. Ond oherwydd cynnig Llywodraeth y DU i gyhoeddi Bil drafft yn yr hydref, mae'r amserlen ar gyfer trafod y potensial i gyd-ddylunio ymateb yn hynod dynn.

Gallaf sicrhau'r Pwyllgor fy mod wedi ymrwymo i lenwi'r bylchau hyn a byddaf yn ystyried pob opsiwn i lenwi'r bylchau hyn gan barchu'r cytundeb datganoli ac ategu'n deddfwriaeth flaengar ar gyfer datblygu cynaliadwy a'n hadnoddau naturiol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 2**

**Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn, a hynny fel mater o frys, ar y trafodaethau sydd wedi digwydd gyda Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd o sefydlu corff ar gyfer y DU.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydyn ni wedi bod yn siarad â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar lefel gweinidogion a lefel swyddogion, i ystyried yr opsiynau ar gyfer llenwi'r bylchau llywodraethu. Rhaid wrth gytundeb yr holl weinyddiaethau ynghylch unrhyw gorff a sefydlir ar lefel y DU ac nid mater imi yw barn y gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Er cwrdd â Llywodraeth y DU gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn ein cyfarfodydd pedwarochrol rheolaidd, ni chawsom ni gyfrannu at lunio'i phapur ymgynghori. Cawsom gopi ymlaen llaw o'r ymgynghoriad ar y diwrnod y cafodd ei gyhoeddi, ychydig cyn y lansiad, heb gyfle i gyfrannu ato.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth y DU i ddeall yn well ei chynigion yn ei hymgynghoriad ''*Environmental Principles and Governance Post EU Exit'* ac i ystyried opsiynau ar gyfer llenwi'r bylchau a ddaw wrth adael yr UE, gan gynnwys y graddfeydd daearyddol gwahanol ar gyfer corff goruchwylio amgylcheddol newydd.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 3**

**Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, a hynny fel mater o frys, ar unrhyw waith archwilio y mae wedi'i wneud at ddibenion asesu'r adnoddau y byddai eu hangen ar gyfer sefydlu corff yng Nghymru, ac ar unrhyw drafodaethau sy'n cael eu cynnal â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydyn ni'n cytuno ei bod yn hanfodol ystyried goblygiadau ariannol sefydlu corff newydd. Newydd ddechrau y mae'r gwaith ar lunio ymateb i'r bylchau hyn ac mae'n rhy fuan dechrau asesu faint o adnoddau y bydd eu hangen.

Fe fyddwn wrth gwrs yn ystyried yr holl oblygiadau o ran adnoddau wrth ystyried yr opsiynau i fynd i'r afael â'r bylchau llywodraethu. Bydd yn dibynnu ar y math o fodel a ddewisir yn ogystal â'r swyddogaethau y bydd y corff yn eu cynnal ynghyd â'i derfynau daearyddol.

Nid ydyn ni wedi cael trafod â Llywodraeth y DU ynghylch yr adnoddau y bydd eu hangen ar gorff i Loegr yn unig. Er bod y trafodaethau ynghylch a fyddai corff ar lefel y DU yn briodol neu beidio yn mynd rhagddynt, nid oes trafod wedi bod eto ynghylch faint o adnoddau y bydd eu hangen gan y byddai hynny hefyd yn dibynnu ar y swyddogaethau y byddai corff Prydeinig yn eu hysgwyddo.

Byddwn yn diweddaru'r Pwyllgor yn yr hydref ynghylch goblygiadau unrhyw gorff o ran adnoddau gan y bydd ei ofynion yn gliriach erbyn hynny.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 4**

**Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor, a hynny fel mater o frys, ar unrhyw waith sy'n cael ei wneud i archwilio trefniadau trosiannol posibl ym maes llywodraethu amgylcheddol os nad yw corff llywodraethu yn cael ei sefydlu cyn i'r DU adael yr UE.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydyn ni'n edrych ar yr holl opsiynau posib i lenwi'r bylchau llywodraethu, sy'n cynnwys yr angen am drefniadau trosiannol neu bontio. Rhaid gwneud hyn gan fod dal ansicrwydd ynghylch beth fydd y trefniadau pan fydd y DU yn gadael yr UE, ac yn enwedig pa reolau fydd yn gymwys yn ystod y cyfnod pontio o ran ein perthynas â'r UE.

Bydd yn amhosib sefydlu corff erbyn Mawrth 2019 i oruchwylio cyfraith amgylcheddol gan fod sefydlu corff newydd yn gofyn am lawer o waith dadansoddi i sicrhau ei fod yn ateb y gofyn ac nad yw'n gwrthdaro â'r strwythurau llywodraethu presennol.

Fodd bynnag, byddai'r cyfnod pontio a gynigir rhwng mis Ebrill 2019 a mis Rhagfyr 2020 - os ceir Cytundeb Ymadael rhwng yr UE a'r DU - yn rhoi rhagor o amser inni fynd i'r afael â hyn. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol yr UE yn parhau'n weithredol, hynny o dan awdurdodaeth Llys Cyfiawnder yr UE.

Rydyn ni'n ymrwymo i barhau ag egwyddorion amgylcheddol craidd yr UE ar ôl Brexit tan y bydd gennym ninnau ddeddfwriaeth. Hefyd, byddwn yn cynnal yr egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Bydd ein cyrff craffu presennol fel yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i graffu ar waith cyrff cyhoeddus a bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn bodloni'u hymrwymiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Byddwn yn dal i siarad â rhanddeiliaid i ystyried pa fecanweithiau eraill sy'n bod allai'n helpu i gau'r bwlch tan y cawn ddeddfwriaeth.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**<u>Argymhelliad 5</u>**

**Rhaid i gorff llywodraethu ar lefel y DU fodloni'r meini prawf a ganlyn:**

- **rhaid iddo gael ei gyd-gynllunio gan holl wledydd gwahanol y DU;**
- **rhaid iddo fod yn atebol i ddeddfwrfeydd, yn hytrach nag i lywodraethau;**
- **rhaid iddo gael adnoddau priodol; a**
- **rhaid bod yna fecanweithiau priodol i ddatrys anghydfodau.**

**Ymateb: Derbyn**

Os penderfynir mai corff ar lefel y DU fyddai fwyaf effeithiol i gau'r bylchau llywodraethu, yna cytunwn y dylai gael ei gyd-gynllunio gan yr holl weinyddiaethau a'i fod yn eiddo i'r holl weinyddiaethau.

Dyna'r drefn a argymhellwn hefyd os bydd y corff yn effeithio ar rai yn unig o'r gweinyddiaethau. Nid mater i Weinidogion Cymru yw barn y gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Rydyn ni'n cytuno hefyd na ddylai corff ar lefel y DU gyfyngu nac amharu ar rôl y Cynulliad na bod yn gryfach nag e, a dylai unrhyw gorff fod yn atebol i'r ddeddfwrfa. Felly y dylai fod hyd yn oed yn achos corff i Gymru'n unig.

Er mwyn i gorff o'r fath lwyddo, mae'n bwysig ei fod yn cael digon o adnoddau, p'un a yw'n gorff Cymreig neu'n gorff Prydeinig.

O ran anghydfodau, rydyn ni'n cytuno ei bod yn hanfodol bod yna fecanweithiau i ddatrys anghydfodau rhwng y gweinyddiaethau os bydd terfynau daearyddol y corff yn estyn y tu hwnt i un weinyddiaeth. Rydyn ni'n cytuno y dylai fod mecanwaith glir i ddatrys anghydfodau sy'n codi wrth redeg y corff.

Hefyd, rydyn ni'n credu y dylai corff ar lefel y DU weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r cytundeb datganoli ac nad yw'n gwrthdaro â'r strwythurau a'r cyrff llywodraethu sy'n bod yng Nghymru. Rhaid i'w bwrpas a'i gylch gwaith fod yn gyson hefyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**<u>Argymhelliad 6</u>**

**Rhaid i'r bensaernïaeth llywodraethu amgylcheddol newydd gynnwys y swyddogaethau a ganlyn:**

- **hyrwyddo'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd ymhlith gweithredwyr y llywodraeth a'r gymuned ehangach;**
- **monitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir wrth weithredu cyfreithiau amgylcheddol, a darparu data gwyddonol hanfodol;**
- **cymryd camau lle nad yw targedau/amcanion yn cael eu cyflawni, er enghraifft drwy osod cosbau economaidd;**
- **sicrhau bod gan ddinasyddion a sefydliadau'r gymdeithas sifil fynediad at y systemau cwyno a gorfodi; a**
- **mabwysiadu strategaeth hirdymor sy'n mynd y tu hwnt i gylchoedd gwleidyddol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Rydyn ni'n cytuno y dylai fod gan unrhyw gorff llywodraethu amgylcheddol bwrpas a chylch gwaith clir ac y dylai gynnal a chyfoethogi'r amgylchedd. Mae'n bwysig felly bod ei bensaernïaeth yn gyson â fframwaith deddfwriaethol Cymru ac na ddylai fynd yn groes i'r hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni yng Nghymru trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Dylai hefyd ategu rolau Cynulliad Cymru o ran craffu ac atebolrwydd.

Bydd yr hyn y bydd y bensaernïaeth yn ei gynnwys yn dibynnu ar y model a ddewisir. Mae'n rhy gynnar dweud eto ai cyrff Cymreig fydd hwnnw neu gorff ar lefel y DU neu gymysgedd o'r ddau.

Ni fyddem am geisio rhagweld beth fyddai pensaernïaeth corff llywodraethu newydd tan inni gynnal dadansoddiad llawn i benderfynu pa fylchau y bydd angen eu llenwi yng Nghymru, hynny gan ystyried ein fframwaith deddfwriaethol, ein cyrff atebolrwydd a'r model fyddai'n llenwi'r bylchau hynny orau. Mae'r pwyntiau a restrir yn yr argymhelliad hwn yn bethau y dylem eu hystyried fel rhan o'r broses. Ond ar hyn o bryd, nid oes digon o ddadansoddi wedi bod i fod yn bendant ynghylch yr union rolau a phwerau a fyddai'n briodol i'r corff a ddewisir.

Byddwn yn gofyn i'n rhanddeiliaid hefyd am eu barn ynghylch y bensaernïaeth lywodraethu. Trwy ein trafodaethau â'n rhanddeiliaid ym Mord Gron Brexit a'i gweithgorau, mae nifer o swyddogaethau posib wedi'u nodi ar gyfer y fath gorff gan gynnwys atebolrwydd annibynnol, hygyrchedd a mecanweithiau gorfodi. Rydyn ni yn cytuno y dylai'r bensaernïaeth fod yn annibynnol, dwyn y llywodraeth i gyfrif a darparu trefn gwyno i ddinasyddion.

Bydd yn rhaid bod gan gorff llywodraethu newydd gylch gwaith clir a ph'un a fydd hynny'n golygu ei fod yn gorff gorfodi ynteu'n gorff cynghori yn fater y byddwn yn ei godi wrth ymgynghori â rhanddeiliaid.

Rydyn ni'n credu nad yw'r argymhelliad hwn yn ystyried natur y bylchau a geir yng Nghymru ac nid yw'n gyson â'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Yn arbennig, rydyn ni eisoes yn edrych tua'r tymor hir wrth lunio polisïau trwy roi le canolog iawn i ddatblygu cynaliadwy yn y ffordd y caiff Cymru ei llywodraethu. Mae gennym ddeddfwriaeth sydd wedi creu saith nod llesiant sy'n rhoi gweledigaeth y gall cyrff cyhoeddus yng Nghymru ei rhannu, a phum ffordd o weithio i'n helpu i ystyried effaith y gwaith rydyn ni'n ei wneud ar Gymru'r dyfodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 7**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth a fydd yn ymgorffori'r egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith, a hynny cyn gynted â phosibl. Dylid cynnwys yr egwyddorion hynny ar wyneb y Bil.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydyn ni eisoes wedi ymrwymo i lenwi unrhyw fylchau gyda golwg ar bedair egwyddor amgylcheddol graidd yr UE ac rydyn ni'n ymrwymo i fodloni'r egwyddorion hyn tan y cawn ddeddfwriaeth i lenwi'r bwlch.

Mae gennym agwedd flaengar at fodloni egwyddorion amgylcheddol yng Nghymru eisoes, sy'n golygu bod ein sefyllfa ni yma yng Nghymru yn wahanol i rannau eraill y DU. Trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), mae gan ddatblygu cynaliadwy le creiddiol yn ein prosesau gwneud penderfyniadau ac rydyn ni wedi rhoi sail statudol i egwyddorion amgylcheddol rhyngwladol.

Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru eisoes i ddilyn 5 ffordd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ddatblygu polisi ar yr amgylchedd yn ogystal ag mewn meysydd eraill rydyn ni'n gyfrifol amdanyn nhw.

Trwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), rydyn ni wedi rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith wrth ddatblygu a gweithredu polisïau a geir yn y Polisi Adnoddau Naturiol. Mae'r egwyddorion hyn sy'n seiliedig ar egwyddorion amgylcheddol rhyngwladol yn cynnwys cyfranogaeth y cyhoedd, cydweithredu, cryfder ecosystemau, tymor hir ac wrth gwrs yr ymagwedd ataliol yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau a gweithredoedd yn seiliedig ar dystiolaeth. Byddwn yn cadw at yr egwyddorion hyn ar ôl gadael yr UE. Mae'r egwyddorion hyn yn ehangach na phedair egwyddor amgylcheddol yr UE ac fe'u defnyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Argymhelliad 8**

**Fel mater o frys, dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yn egluro pryd a sut y mae'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ymgorffori'r egwyddorion amgylcheddol mewn cyfraith.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel ag y mae'r Pwyllgor yn ei ddisgrifio yn ei adroddiad '*Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit',* ni ddylid rhuthro'r gwaith hwn gan ei fod yn dibynnu ar benderfyniadau pwysig a allai fod â goblygiadau tymor hir.

Fel y materion sy'n ymwneud â chorff amgylcheddol, mae angen inni hefyd ystyried opsiynau posib ar gyfer rhoi egwyddorion amgylcheddol ar waith yn ogystal â'r goblygiadau posib os oes egwyddorion amgylcheddol gwahanol yn cael eu gweithredu yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig o o dan awdurdodaeth gyfreithiol gyffredin.

Rydyn ni'n parhau i drafod â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill sut i osgoi unrhyw wrthdaro.

O gofio'r llif o ddeddfwriaeth y bydd ei hangen i ddelio â Brexit, byddai'n fwy manteisiol dibynnu ar un darn o ddeddfwriaeth i ddelio â materion llywodraethu. Felly, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth ar ôl inni gynnal dadansoddiad trylwyr i sicrhau bod ein cynigion yn addas i'r diben ac yn gyson â'r fframwaith statudol presennol.

Yn ei ddatganiad deddfwriaethol diweddar am raglen ddeddfwriaethol y pum mlynedd nesaf, ymrwymodd y Prif Weinidog i ddarparu rhaglen hyblyg er mwyn caniatáu Biliau Brexit.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i siarad â rhanddeiliaid i ddatblygu'n dull gwethio, a byddwn yn ymgynghori arno yn yr hydref.

Tan y cawn ddeddfwriaeth, rydyn ni'n parhau i ymrwymo i bedair egwyddor amgylcheddol yr UE yng Nghymru.

**Y goblygiadau ariannol**: Dim.

**Argymhelliad 9**

**Fel mater o frys, dylai Llywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor hwn ar y trafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y broblem lle gallai'r DU wneud penderfyniadau ar faterion a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar Gymru ond sy'n gwrthdaro ag egwyddorion neu safonau amgylcheddol Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i drafod materion datganoledig fel rhan o'r Cytundeb Rhynglywodraethol. Rwyf wedi'i gwneud yn glir yn fy nghyfarfodydd â Llywodraeth y DU y dylai hyn olygu ei bod yn sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion a gedwir yn ôl yn ystyried y sefyllfa ddeddfwriaethol Gymreig ac nad yw'n gwrthdaro ag egwyddorion amgylcheddol Cymru.

Er bod mater wedi'i gadw'n ôl, gallai effeithio ar swyddogaethau datganoledig ehangach nag egwyddorion neu safonau amgylcheddol. Rydyn ni felly wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ar lefel Gweinidogion a swyddogion i ddeall cynigion Llywodraeth y DU yn well o ran yr hyn a olygant wrth feysydd sydd wedi'u cadw'n ôl. Rydyn ni'n parhau i drafod sut y byddai'r corff hwn yn gweithredu mewn cysylltiad â'r materion sydd wedi'u cadw'n ôl sy'n effeithio ar Gymru.

Trwy'n trafodaethau, rydyn ni'n sicrhau hefyd bod pobl yn deall sut yr ydyn ni'n gwneud pethau o safbwynt deddfwriaethol yng Nghymru a sut y byddai gofyn i swyddogaethau corff i Loegr yn unig sicrhau nad yw'n gwrthdaro â'n deddfwriaeth ni.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

Eitem 3.6

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Caffael Cyhoeddus mewn cysylltiad â Bwyd**

**24 Awst 2018**

---

**Y Cefndir i'r Sefyllfa Bresennol**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i'r diwydiant bwyd yng Nghymru drwy'r camau gweithredu a ddisgrifir yn ei chynllun gweithredu presennol 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'. Mae'r Cynllun yn cynnig cymorth i roi'r Strategaeth hirdymor 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020' ar waith. Bydd y Cynllun a'r Strategaeth yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2019.

Yn 'Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017, fnodwyd bod y diwydiant Bwyd a Diod yn un o'r sectorau sylfaen a fydd yn cael cymorth. Yn 'Ffyniant i Bawb' mae ymrwymiad i ehangu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i gryfhau'r sector ac i fynd ati i ddatblygu cynlluniau galluogi ar draws y Llywodraeth er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Cyn i'r adroddiad hwn ddod i law, roeddwn wedi cytuno â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i ddechrau llunio'r strategaeth a'r cynllun gweithredu nesaf. Bydd hyn yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer y degawd nesaf a pha gymorth y bydd ei angen er mwyn manteisio ar y llwyddiant a gafwyd hyd yn hyn, yn enwedig wrth i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. O'r herwydd, croesawaf yr adroddiad hwn gan ei fod yn darparu tystiolaeth bellach i'w hystyried wrth inni lunio'r dogfennau dilynol.

**Nodir isod ymatebion manwl i argymhellion a chanlyniadau'r adroddiad.**

**Argymhelliad 1**
Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd i'r Pwyllgor hwn ar bob un o gasgliadau'r adroddiad dim hwyrach na 12 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. Os bydd Llywodraeth Cymru yn anghytuno ag un o gasgliadau'r Pwyllgor, dylai nodi ei rhesymau dros hynny.

**Ymateb:** Derbyn

Rhoddwyd ymateb llawn i argymhelliad a chasgliadau'r adroddiad.

**Goblygiadau ariannol** − Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o'r cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

**Casgliad 1**
Mae Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014–2020 yn amlwg wedi gwneud cynnydd da at gyflawni ei brif amcan – sef ehangu'r sector. Fodd bynnag, o ystyried buddion posibl polisïau

bwyd, mae'r ffocws hwn yn rhy gul. Mae angen gweledigaeth strategol ar gyfer y sector bwyd yng Nghymru sy'n creu cysylltiadau rhwng meysydd polisi gwahanol megis iechyd, llesiant a chynaliadwyedd ochr yn ochr â thwf economaidd. Mae heriau Brexit yn rhoi hyd yn oed mwy o frys ar hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu casgliad y Pwyllgor bod cynnydd amlwg wedi'i wneud mewn cysylltiad â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod. Mae gan y Cynllun Gweithredu presennol ffocws eang gyda 48 o gamau gweithredu yn ymwneud ag agweddau ehangach ar y sector bwyd a diod, gan greu cysylltiadau â meysydd polisi gwahanol gan gynnwys y rhai a restrir yn y casgliad, yn ogystal â ffocws economaidd y prif darged i gynyddu gwerth y sector i £7 biliwn erbyn 2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ei bod yn bryd edrych yn fanylach tuag at y dyfodol, gan ystyried yr hyn a gyflawnwyd a'r gwersi a ddysgwyd. Mae gweledigaeth strategol glir ar gyfer y tymor hir yn hanfodol er mwyn llywio'r camau gweithredu a'r gefnogaeth a fydd yn helpu'r sector i dyfu'n barhaus. Mae cysylltiad rhwng hyn a sut y mae'r sector yn cyfrannu at fudd ehangach Cymru. Nodir yn Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi fod y diwydiant bwyd a diod yn un o'r pedwar 'Sector Sylfaen', gan roi lle canolog iddo yn rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru. Bydd strategaeth a chefnogaeth i'r diwydiant bwyd a diod yn y dyfodol yn parhau i ystyried cyfraniad ehangach y sector at fudd Cymru.

Cyhoeddais ar 18 Gorffennaf fod Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (y Bwrdd) a minnau wedi dechrau cydweithio i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu nesaf er mwyn rhoi cyfeiriad strategol i'r diwydiant ar ôl 2020. Byddai'r gwaith hwn wedi dechrau hyd yn oed heb Brexit. Mae'r cyfnod cyntaf o ymgynghori â'r cyhoedd wedi dechrau. Bydd datblygu'r Cynllun / Strategaeth nesaf yn sicrhau bod cysylltiadau'n parhau i gael eu gwneud rhwng y meysydd polisi gwahanol, gan ddarparu llesiant yng Nghymru a chynllun galluogi ar gyfer y sector bwyd fel sector sylfaen.

**Casgliad 2**
Mae angen strategaeth newydd gyffredinol ar ôl Brexit sy'n ystyried y system gyfan. Dylai'r strategaeth gael ei hategu gan amcanion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a dylid llunio cynllun gweithredu i gyd-fynd â'r strategaeth, gan gynnwys mesurau a thargedau.

Mae gan Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu cynhwysfawr ar waith ac mae'r Bwrdd a minnau wedi dechrau gweithio ar y cynllun / strategaeth nesaf ar gyfer 2020 ymlaen a fydd yn ystyried y sector bwyd fel 'sector sylfaen' yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn un o'n hystyriaethau polisi allweddol wrth inni lunio'r Cynllun Gweithredu nesaf ar gyfer y diwydiant bwyd a diod.
Bydd y Cynllun Gweithredu / Strategaeth nesaf yn ystyried Brexit wrth bennu'r cyfeiriad strategol a'r hyn sydd ei hangen ar gyfer y tymor hir, ac mae'r gwaith eisoes wedi dechrau (gweler yr ymateb i gasgliad 1). Ar gyfer y tymor byr,

mae gan Lywodraeth Cymru raglen 'Yn Barod ar gyfer Brexit ' sydd ar waith ar hyn o bryd sy'n cynnwys camau gweithredu ar gyfer y sector bwyd.

**Casgliad 3**

O ystyried bod y ffigurau swyddogol diweddaraf yn amcangyfrif bod gwariant caffael bwyd a diod y sector cyhoeddus yn £74.4 miliwn y flwyddyn, mae'n hanfodol bod buddion ehangach y gwariant hwnnw yn cael eu gwireddu. Defnyddir yr arian hwn i ddarparu bwyd yn ein hysgolion a'n hysbytai, a dylid meddwl amdano fel buddsoddiad mewn iechyd a llesiant pobl Cymru. Rydym yn credu y dylai caffael cyhoeddus mewn cysylltiad â bwyd fod yn rhan ganolog o strategaeth fwyd ar ôl Brexit.

Mae caffael cyhoeddus mewn cysylltiad â bwyd a diod yn fater pwysig hyd yn oed heb ystyried Brexit. Mae'n bwysig bod gwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a chymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau bwyd a diod yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio gwariant cyhoeddus i greu cyfleoedd i fusnesau yng Nghymru a buddion cyhoeddus mewn cysylltiad â bwyd a diod o ansawdd da. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi pennu cwmpas y Cynllun Gweithredu / Strategaeth hirdymor o 2020 ymlaen, a gellir ystyried y casgliad hwn fel rhan o'r dystiolaeth a gesglir.

**Casgliad 4**

Cafodd adolygiad Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru o strategaeth a chynllun gweithredu bwyd a diod Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi yn 2016. Mae'n dal i fod yn berthnasol ar gyfer polisi a chynllunio a dylid ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y dull o wella caffael bwyd yn y sector cyhoeddus. Credwn y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei hymateb i'r adroddiad hwnnw.

Bydd Lywodraeth Cymru yn ystyried amrywiaeth eang o dystiolaeth wrth lunio'r strategaeth a'r cynllun gweithredu nesaf ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru. Mae hyn yn gyfle i ystyried y dadansoddiad a'r argymhellion yn adolygiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru sy'n un o nifer o gyfraniadau gan amrywiaeth o randdeiliaid a fydd yn ffurfio'r sail dystiolaeth ar gyfer y cynllun gweithredu nesaf.

**Casgliad 5**

Roeddem yn pryderu am yr awgrym nad yw cyflenwyr yn ystyried bod caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ddibynadwy na bod llawer o fri iddo. Byddai strategaeth fwyd gyffredinol, sy'n nodi'r safonau uchaf, yn mynd i'r afael â'r canfyddiad nad oes llawer o fri i gaffael cyhoeddus. Gallai cael cyfeiriad strategol clir hirdymor fynd i'r afael â'r canfyddiad ehangach o ddiffyg dibynadwyedd. Beth bynnag, credwn y dylai Llywodraeth Cymru a'r sector weithio gyda'i gilydd i nodi'r rhesymau dros y canfyddiad hwn a mynd i'r afael â nhw.

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ychydig yn amheus o'r awgrym nad yw caffael yn y sector cyhoeddus yn cael ei ystyried yn ddibynadwy na bod llawer o fri iddo heb weld yr ystadegau sy'n dangos

mai dyma farn llawer o fusnesau bwyd a diod. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth am i gyflenwyr deimlo bod caffael yn y sector cyhoeddus yn ddibynadwy, a bydd yr adolygiad y cyfeirir ato yn yr ymateb i Gasgliad 9 yn caniatáu i'r Gwasanaeth ddysgu oddi wrth adborth cyflenwyr.

**Casgliad 6**

Mae'n werth ymchwilio i offer a all ddarparu asesiad costau mwy soffistigedig at ddibenion caffael. Er enghraifft, gellid mynegi cyflogaeth leol fel ffactor cost. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnig sylfaen delfrydol i ddatblygu offer o'r fath a gall fod yn sail i Lywodraeth Cymru, CLILC a sefydliadau perthnasol eraill ddatblygu dull sy'n adlewyrchu blaenoriaethau Cymru.

Mae defnyddio offerynnau a allai asesu costau mewn ffordd fwy soffistigedig at ddibenion caffael yn fater sy'n cael ei ystyried eisoes fel rhan o'r gwaith ehangach sy'n cael ei arwain gan Gwerth Cymru i ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol â nifer o sefydliadau sy'n arloesi ym maes economeg flaengar ar gyfer pobl leol a lleoedd. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cyfrannu at y gwaith hwn a bydd yn rhan o gynllun peilot yn y dyfodol.

**Casgliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn falch iawn bod sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys y Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus a nifer gynyddol o awdurdodau lleol, wedi arwyddo cytundeb Courthald 2025. Dylai lleihau gwastraff bwyd fod yn rhan o strategaeth fwyd gyffredinol ac unrhyw gynllun gweithredu cysylltiedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod lleihau gwastraff sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd yn allweddol er mwyn datblygu diwydiant bwyd a diod llwyddiannus a chynaliadwy. Gallai'r dull hwn o weithio fod o fudd i'r diwydiant, i gwsmeriaid drwy leihau costau ac i'r amgylchedd ehangach drwy wneud y gorau o adnoddau naturiol a lleihau gwastraff.

Mae'r diwydiant bwyd a diod eisoes yn ymateb i'r galw ymhlith cwsmeriaid yn hyn o beth, a bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu nesaf yn cyd-fynd â'r adolygiad o Strategaeth Gwastraff Llywodraeth Cymru i sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol o'r budd mwyaf i'r holl randdeiliaid. Gan fod y Strategaeth Wastraff bresennol yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y casgliad mewn egwyddor er mwyn sicrhau bod lleihau gwastraff yn cael ei ystyried mewn ffordd ddigonol. Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ymgynghoriad ar strategaeth ddiwygiedig ar gyfer gwastraff yn yr hydref.

**Casgliad 8**

Dylai strategaeth fwyd gyffredinol gael ei hategu gan fesurau i gynyddu sgiliau ac arbenigedd gweithwyr caffael proffesiynol yng Nghymru, i sicrhau bod yr amcanion yn gallu cael eu cyflawni'n effeithiol. Mae cefnogi hyfforddiant a

chyfnewid arfer gorau drwy weithgorau lleol wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol.

Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cydlynu Fforwm Categori Bwyd sy'n gyfrwng i swyddogion caffael a diogelu bwyd o bob rhan o sector cyhoeddus Cymru gydweithio a rhannu profiadau ac arbenigedd. Ymgynghorir â'r Fforwm Categori Bwyd er mwyn deall pa brif sgiliau y mae angen eu datblygu ym maes caffael bwyd. Mae datblygu gweithwyr proffesiynol medrus yn parhau i fod yn un o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 9**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddwy rôl o ran caffael bwyd yn y sector cyhoeddus. Mae'n gyfrifol am y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) a hefyd yn gyfrifol am bennu'r fframwaith polisi cyffredinol. Mae'n ymddangos, yn y blynyddoedd diwethaf, fod adnoddau Llywodraeth Cymru wedi cael eu targedu tuag at ddatblygu'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar draul darparu cymorth ar gyfer caffael y tu allan i'r NPS.

Mae adolygiad o gaffael wedi dechrau ac rydym yn ystyried neilltuo cymorth ariannol i wella sgiliau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd casgliadau'r adroddiad hwn yn cael eu hystyried fel tystiolaeth yn yr adolygiad hwn.

**Casgliad 10**

Nid yw caffael canolog o reidrwydd yn anghyson â chefnogi cyflenwyr lleol. Gall strategaeth fwyd gyffredinol, ynghyd ag asesiad cyson o gost sy'n adlewyrchu'r amcanion, gynnwys dulliau caffael canolog a lleol. Fodd bynnag, o ran y dyfodol agos, mae'n ymddangos y bydd sefydliadau cyhoeddus yn parhau i wario swm sylweddol o arian cyhoeddus y tu allan i fframweithiau NPS. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall gefnogi sefydliadau'r sector cyhoeddus i barhau i wella arferion caffael. Cynigiodd cyfranwyr i'r ymchwiliad hwn sawl awgrym o ran sut y gellir datblygu hyn, gan gynnwys gwell cydweithio rhwng y Llywodraeth, caffael cyhoeddus a diwydiant.

Bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn defnyddio ei Fforwm Categori Bwyd i ddeall gofynion cwsmeriaid a busnesau'n well. Bydd y dull hwn, sy'n seiliedig ar 'wersi a ddysgwyd', yn helpu i benderfynu ar ddulliau canolog, rhanbarthol a lleol yn y dyfodol o gaffael bwyd a fydd yn gwneud y mwyaf o werth y gwariant hwn i Gymru. Ystyrir y casgliadau hyn fel tystiolaeth yn yr adolygiad o gaffael a nodir yn yr ymateb i gasgliad 9.

**Casgliad 11**

Mae'r Pwyllgor hwn a Swyddfa Archwilio Cymru wedi clywed pryderon am fframweithiau NPS. Rydym yn pryderu bod y rhagolygon ar gyfer gwariant ym mlwyddyn un Fframwaith Bwyd NPS 1 yn sylweddol is na'r gwerth a amcangyfrifir a ymddangosodd mewn dogfennau tendr. O ystyried bod Swyddfa Archwilio Cymru hefyd wedi dod i'r casgliad bod y defnydd posibl o

fframweithiau wedi cael eu hamcangyfrif yn ormodol gan yr NPS, rydym yn credu'n gryf y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r mater hwn.

Mae ffactorau megis ysgogi sefydliadau i weithredu, y ffaith bod gan rai ohonynt drefniadau eisoes, a gwahaniaethau o ran tymhorau ysgol wedi cael effaith ar fabwysiadu'r fframwaith. Ar ôl ystyried canfyddiadau adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, adborth cwsmeriaid, a gwybodaeth reoli fwy cywir, mae'r gwerthoedd yn y fframwaith bellach yn seiliedig ar ragolygon mwy realistig. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r mater hwn.

**Casgliad 12**

Mae'n ymddangos bod yr NPSl wedi ymateb yn gadarnhaol ac adeiladol i bryderon cychwynnol ynghylch strwythur Fframwaith Bwyd NPS 1. Nodwn fod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'r NPS a chredwn y dylai'r fframweithiau bwyd fod yn rhan o'r adolygiad hwnnw.

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o nodi'r casgliad hwn a gall gadarnhau bod pob categori yn y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad.

**Casgliad 13**

Mae diffyg gwybodaeth ar gael am wariant y sector cyhoeddus ar fwyd. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir mynd i'r afael â hyn. Un dull posibl fyddai cyhoeddi gwybodaeth am wariant drwy gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus bob dwy flynedd. Byddai hyn yn golygu y gellir gweld tueddiadau hirdymor a bylchau yn y gadwyn gyflenwi.

Caiff gwariant caffael yn sector cyhoeddus Cymru ei gofnodi drwy system dadansoddi gwariant o'r enw Atamis a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hynny'n caniatáu i amrywiaeth eang o gategorïau gwariant gael eu dadansoddi a'u hasesu, gan gynnwys bwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn falch o gadarnhau y bydd data o'r system hon ar gael i'w cyhoeddi o hydref 2018 ymlaen. Byddai cylch adrodd dwy flynedd yn sicrhau y gellir olrhain newidiadau yn effeithiol a nodi patrymau sy'n dod i'r amlwg.

**Casgliad 14**

Mae'r graddau y mae rheoliadau'r UE wedi cyfyngu ar arferion caffael wedi cael eu gorliwio dros nifer o flynyddoedd. Mae'n amlwg o arferion mewn gwledydd eraill yr UE nad yw'r system yn atal caffael bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol, sy'n iach ac yn gynaliadwy.

O dan y gyfundrefn bresennol, mae'r Gwasanaeth Caffael Cyhoeddus yn mynd ati i hyrwyddo bwydydd lleol, iach a chynaliadwy.

Cynhelir gweithdai i gyflenwyr ym mis Gorffennaf 2018 i drafod cyflwyno offeryn Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd a fydd yn helpu'r

Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i fonitro a gwerthuso sut y mae cyflenwyr a benodir o dan fframweithiau bwyd a diod y Gwasanaeth yn perfformio o ran cynaliadwyedd, ac i adrodd ar hynny.

Mae'n metrigau sydd â blaenoriaeth yn cynnwys cynhyrchu gwastraff bwyd, carbon sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a dosbarthu, deunydd wedi'i ailgylchu mewn deunyddiau pacio a chyflenwi cynhyrchion cynaliadwy.

Bydd cyflenwyr yn cyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr WRAP (y Cynllun Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau). Byddant hefyd yn gallu datblygu'u cynllun gweithredu unigol eu hunain a fydd yn mynd i'r afael ag effeithiau/cyfleoedd o ran cynaliadwyedd yn eu busnesau'u hunain. Byddant yn cael y cyfle i fynegi'u barn am yr offeryn cyn i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ei roi ar waith yn ffurfiol.

Ar ôl Brexit, bydd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn parhau i hyrwyddo bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol, sy'n iach ac yn gynaliadwy.

**Casgliad 15**

Mae Brexit yn creu heriau a chyfleoedd y gellir mynd i'r afael â nhw gan bolisïau bwyd newydd yng Nghymru. Mae angen ymchwilio i'r rheoliadau, y safonau a'r strwythurau sydd eu hangen i ddisodli'r rhai sy'n deillio o ddeddfwriaeth yr UE ar hyn o bryd. Dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith hwn fel y mae'n berthnasol yng Nghymru.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol wedi datblygu system ddiogel o gyflenwi bwyd sy'n rhoi hyder i ddefnyddwyr yn y bwyd a'r ddiod y maen nhw'n eu prynu. Mae'n bwysig bod y safonau cynhyrchu uchel a'r ansawdd uchel sydd i'w gweld ar hyn o bryd yng Nghymru a mannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn cael eu cynnal ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y system reoleiddiol hon yn parhau i ddiogelu iechyd y cyhoedd ar ôl Brexit a sicrhau y gall cwmnïau barhau i fasnachu'n rhyngwladol a bodloni disgwyliadau'u cwsmeriaid. Yn y tymor hwy, efallai y bydd yn fuddiol i ymchwilio i'r hyn a allai gymryd lle system sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth yr UE wrth i bolisïau Cymru / y DU ddatblygu ar ôl gadael yr UE. Bydd y gwaith hwn yn y tymor byr a'r tymor hir yn cael ei arwain gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, nid Llywodraeth Cymru.

**Lesley Griffiths AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

**Hannah Blythyn AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd**
**Minister for Environment**

Eitem 3.7

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P/LG/2876/18

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5 Medi 2018

Annwyl Mike

Diolch i chi am eich adroddiad ar y Fframweithiau Cyffredin ar gyfer yr Amgylchedd ar ôl Brexit.

Yr wyf wedi atodi ymateb ar ran Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor.

Cofion

Lesley Griffiths    Hannah Blythyn

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

**Hannah Blythyn AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd
Minister for Environment

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Fframweithiau Cyffredin ar gyfer yr Amgylchedd ar ôl Brexit.**

**Medi 2018**

**<u>Argymhelliad 1</u>**

**Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru llunio dulliau gweithio rhynglywodraethol ffurfiol. Mae angen model llywodraethu cyffredin i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud a chamau yn cael eu cymryd ar sail cydraddoldeb parch. Dylid diwygio Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (JMC), neu dylid sefydlu Cyngor Gweinidogion y DU newydd, er mwyn bwrw ymlaen â'r materion hyn. Rhaid cael dulliau cymrodeddu a dyfarnu yn gysylltiedig â'r corff hwn er mwyn datrys anghydfodau. Mae'n rhaid iddo fod yn dryloyw.**

**Ymateb:** Derbyn

Croesawn gefnogaeth y Pwyllgor i'r cynigion a gyflwynir gennym yn ein Papur ar Brexit a Datganoli ym Mehefin y llynedd.  Fe wnaethom gyflwyno glasbrint ar gyfer diwygiadau yn galw am 'Gyngor Gweinidogion y DU' a fyddai'n gallu gwneud penderfyniadau ar y cyd gyda phroses ddyfarnu annibynnol.  Dylai'r Cyngor Gweinidogion allu delio hefyd â'r ffurf newydd o rannu pwerau a chyfrifoldebau sy'n bodoli gyda'r Fframweithiau Cyffredin.

Rydym yn cytuno na chynlluniwyd strwythurau Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (JMC) ar gyfer llywodraethu a gwneud penderfyniadau a rennir.  Yng nghyfarfod llawn y JMC ar 14 Mawrth, fe gytunodd y Pwyllgor y dylai swyddogion adolygu ac adrodd i'r Pwyllgor ar y strwythurau rhynglywodraethol presennol, gan gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben ar gyfer pan fydd y DU yn gadael Ewrop.

Bydd yr adolygiad yn cwmpasu'r 3 maes canlynol o gysylltiadau rhynglywodraethol:
- Fframwaith ac egwyddorion cyfansoddiadol
- Trefniadau cyswllt
- Trefniadau llywodraethu (fframweithiau, gwneud penderfyniadau, datrys anghydfodau, rhannu data).

Sefydlwyd tîm prosiect rhynglywodraethol o swyddogion er mwyn datblygu'r gwaith hwn. Cynrychiolir Llywodraeth Cymru ar y tîm prosiect hwn ac mae'n chwarae ei ran yn llawn yn datblygu'r adolygiad, ond mae'n rhy fuan i ragweld y canlyniadau.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**<u>Argymhelliad 2</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau'r rôl y mae wedi'i chymryd i ddatblygu asesiad dros dro Llywodraeth Cymru o fframweithiau cyffredin. Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei sefyllfa o ran asesiad dros dro Llywodraeth Cymru a dylai gyhoeddi ymateb ffurfiol iddo.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Nid yw asesiad dros dro Llywodraeth Cymru o Fframweithiau Cyffredin, a gyhoeddwyd ym Mawrth 2018, yn ddogfen ar y cyd ac ni wnaeth Llywodraeth Cymru gyfrannu at y gwaith o'i llunio.
Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal, a bydd yn parhau i gynnal, trafodaethau ar y meysydd y bydd angen Fframwaith Cyffredin arnynt ac i ba raddau y bydd angen cwmpasu'r meysydd hyn. Un o nodau'r cam gwaith presennol fydd mireinio'r ddealltwriaeth a rennir ymhellach rhwng y pedair Gweinyddiaeth ar Fframweithiau Cyffredin, gan gynnwys pa feysydd penodol y gallai fod angen eu hategu gan ddeddfwriaeth.

Byddai'r gwaith a gwblhawyd hyd yma yn awgrymu y bydd y meysydd y bydd angen i'r pedair Gweinyddiaeth ddeddfu arnynt ar y cyd yn llawer llai a bydd angen newid y rhestr gychwynnol a ddarparwyd gan UK Analysis. Yn Ebrill 2018, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar Gytundeb Rhynglywodraethol ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Mae'r Cytundeb hwn yn adlewyrchu ar asesiad dros dro o'r Fframweithiau Cyffredin ac mae'n ddogfen gyhoeddedig. Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn cydnabod ...*efallai na fydd angen* (deddfwriaeth ategol) *ym mhob un o'r 24 maes a nodwyd, ac mai dim ond elfennau penodol o rai meysydd fydd yn galw am ddeddfwriaeth...*

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**<u>Argymhelliad 3</u>**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi unrhyw esboniad y mae wedi'i gael gan Lywodraeth y DU ynghylch y rhesymeg dros benderfynu p'un a yw fframweithiau yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol.**

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Fframweithiau Cyffredin yn cyfeirio at y meysydd hynny lle gallai fod angen nodweddion cyffredin rhwng y pedair Gweinyddiaeth ar feysydd sy'n cael eu gweinyddu gan yr UE yn awr, a gallai'r rhain fod yn rhai deddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol.

Nid Llywodraeth y DU fydd yn gwneud penderfyniadau p'un a yw Fframweithiau Cyffredin yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol, ond bydd angen eu datblygu drwy gyd-ddealltwriaeth rhwng y pedair Gweinyddiaeth o beth fydd y ffordd orau i reoli pob maes polisi.

Un o flaenoriaethau'r gwaith yw i bob un o'r pedair Gweinyddiaeth gytuno ar y meysydd hynny a fydd yn galw am rywfaint o ddeddfwriaeth ategol o dan Fframwaith Cyffredin. Mae rhai o'r 24 a nodwyd gan ddadansoddiad Llywodraeth y DU yn eang iawn, felly, mae'n bwysig nodi y bydd dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn galw am *...drafodaeth fwy manwl i archwilio a allai fod angen trefniadau fframwaith cyffredin deddfwriaethol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.*

Bydd gweithgorau o swyddogion o bob un o'r pedair Gweinyddiaeth yn ceisio nodi pa agweddau o'r meysydd hyn fydd yn galw am ddeddfwriaeth ategol. Mae gwaith ar lefel swyddogion eisoes yn dangos y bydd y meysydd y bydd angen deddfwriaeth arnynt yn llawer mwy cul eu cwmpas na'r rhestr o 24 a nodwyd yn asesiad dros dro Llywodraeth Cymru o Fframweithiau Cyffredin.

Mae hefyd yn bosibl y gellir nodi Fframweithiau deddfwriaethol ychwanegol y tu hwnt i'r rhestr o 24 maes, pan fydd pob gweinyddiaeth yn cytuno bod hynny'n ddymunol.

Gallai rhai Fframweithiau Cyffredinol gael eu hategu gan gytundebau anneddfwriaethol. Gallai'r rhain gynnwys trefniadau rhwng y pedair Gweinyddiaeth, er enghraifft Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu drefniadau rhynglywodraethol eraill a fyddai'n ategu dull gweithredu cyffredin rhwng y Gweinyddiaethau.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 4**

**Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau sut y mae wedi sicrhau bod materion sy'n unigryw i Gymru, fel y Gymraeg, wedi cael sylw wrth ystyried fframweithiau cyffredin. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd gadarnhau p'un a yw wedi asesu effaith asesiad dros dro Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Egwyddorion y Fframwaith a'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn sefydlu bod y broses o ddatblygu Fframweithiau Cyffredin yn gyd-fenter yn ei hanfod rhwng yr holl Weinyddiaethau. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r holl Fframweithiau Cyffredin sy'n berthnasol i Gymru a byddant yn gallu cynrychioli buddiannau Cymru wrth iddynt gael eu datblygu. Nid yw hyn yn fater o ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU; bydd y Fframweithiau Cyffredin yn cael eu datblygu ar y cyd.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn eistedd ar fwrdd cydlynu canolog sy'n cydlynu'r gwaith o ddatblygu'r holl Fframweithiau Cyffredin. Bydd materion sy'n benodol i Gymru, gan gynnwys yr effeithiau ar y Gymraeg, yn rhan bwysig o'u cyfraniadau.

Mae'r gwaith wedi mynd heibio asesiad cychwynnol Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth. Pan fydd y sefyllfaoedd cydlynol yn dechrau cael eu datblygu ar y cyd, yna bydd yn bosibl asesu eu heffaith ar y Gymraeg.

Bydd angen i unrhyw Fframwaith Cyffredin sy'n arwain at swyddogaethau sy'n cael eu gweithredu yn awr gan y Comisiwn Ewropeaidd gael eu cynnal ar draws y DU gan gorff newydd neu gorff wedi'i addasu gynnwys darpariaethau priodol ar gyfer cyflawni polisïau'r Gymraeg.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 5**
**Dylai Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig gytuno ar ddiffiniadau o'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yn hysbysiad JMC yn Hydref 2017 a chyhoeddi'r diffiniadau hynny.**

**Ymateb: Gwrthod**

Fel y nodir ym mharagraff 12 yr adroddiad, mae'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod y JMC ar 16 Hydref yn datgan y bydd Fframweithiau Cyffredin yn cael eu sefydlu pan fydd eu hangen i:

- galluogi i farchnad fewnol y DU weithredu, gan gydnabod gwahaniaeth mewn polisi;
- sicrhau cydymffurfiaeth â goblygiadau rhyngwladol;
- sicrhau y gall y DU drafod, cytuno ar a gweithredu cytundebau masnach a chytundebau rhyngwladol newydd;
- galluogi i adnoddau cyffredin gael eu rheoli;
- gweinyddu a darparu mynediad at gyfiawnder mewn achosion ag elfen drawsffiniol;
- diogelu diogelwch y DU.

Mae'r materion trawsbynciol a nodwyd yn natganiad y JMC, megis marchnad fewnol y DU, yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r prif ddarn o waith ar Fframweithiau Cyffredin.

Wrth i Fframweithiau Cyffredin barhau i ddatblygu, bydd yr Egwyddorion y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod JMC(EN) ym mis Hydref yn ffurfio'r sail i'w datblygiad a byddant yn cael eu hystyried yng nghyd-destun pob Fframwaith Cyffredin. Wrth i fanylion am y Fframweithiau Cyffredin ddod i'r amlwg, byddant yn cael eu cyhoeddi maes o law ar gyfer ymgynghoriad a chraffu.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim

__Argymhelliad 6__

**Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y bydd yn sicrhau bod gan y Cynulliad gyfleoedd digonol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu fframweithiau cyffredin ac i graffu ar y cynigion terfynol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cytundeb Rhynglywodraethol yn sicrhau y gwneir y gwaith o ddatblygu pob Fframwaith Cyffredin ar y cyd. Ar gyfer y rhai sy'n cael eu hategu gan ddeddfwriaeth, bydd Confensiwn Sewel yn parhau i fod yn berthnasol a bydd Llywodraeth y DU yn ceisio caniatâd yn y ffordd arferol.

Wrth i gam presennol y gwaith barhau ac wrth i ddulliau polisi ddechrau cael eu datblygu ar gyfer pob Fframwaith Cyffredin, bydd y rhain yn cael eu profi gyda rhanddeiliaid. Wrth i'r cynigion ar gyfer y trefniadau gwaith newydd gael eu datblygu drwy gytundebau anneddfwriaethol, bydd y rhain yn agored i gael eu craffu.

Bydd agweddau cyfansoddiadol y Fframweithiau Cyffredin o ddiddordeb parhaus i'r Pwyllgorau Materion Allweddol a Deddfwriaeth Ychwanegol a Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Bydd Fframweithiau Cyffredin ar bolisïau penodol yn elwa o waith craffu pynciau penodol wrth i'r cynigion ddod i'r amlwg.

Bydd hyn yn fath cwbl newydd o ddatblygu polisïau ar draws y gweinyddiaethau. Bydd y dull a ddefnyddir gan y pwyllgorau perthnasol o bob deddfwrfa i graffu arnynt ar y cyd yn rhywbeth a allai alw am ddull newydd o graffu ar y cyd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**Argymhelliad 7**

**Nid yw rhanddeiliaid wedi'u darbwyllo eto eu bod wedi cael eu cynnwys mewn ffordd ystyriol wrth ddatblygu'r fframweithiau cyffredin. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â hyn.**
**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid ar bolisïau'r dyfodol. Er enghraifft, yn ein dogfen 'Brexit a'n Tir', sy'n destun ymgynghoriad yn awr, bu ymgysylltiad trwy gydol y broses, gan gynnwys y Bord Gron Rhanddeiliaid ar Brexit, ymgysylltiad rhanddeiliaid yn Sioe Frenhinol Cymru a digwyddiadau ymgynghori eraill. Bydd ein hagwedd at y Fframweithiau Cyffredin yn cael ei hysbysu gan yr amcanion a'r gofynion polisi mewn ardaloedd penodol. Felly, ar gyfer amaethyddiaeth, bydd ein hagwedd yn cael ei hysbysu gan yr ymgysylltiad a gafwyd gyda rhanddeiliaid.

Wrth i gynigion cychwynnol gael eu datblygu ym mhob maes o'r Fframweithiau Cyffredin, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol cyn gynted â phosibl. Dylid gwneud hyn mewn ffordd gydgysylltiedig, ochr yn ochr â'r Gweinyddiaethau eraill.

Mae hon yn rhaglen waith a fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w gweithredu, a'r bwriad yw sefydlu Fframweithiau Cyffredin deddfwriaethol ac anneddfwriaethol erbyn diwedd y cyfnod pontio arfaethedig yn 2020.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim

**Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yn rhaid i'r hawliau sydd gan ddinasyddion ar hyn o bryd i herio cymhwysiad deddfwriaeth amgylcheddol gael eu cadw mewn fframweithiau cyffredin i'r DU. Rhaid i'r broses ar gyfer herio cymhwyso deddfwriaeth fod yn glir ac yn hygyrch.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Fel Llywodraeth, mae ein neges wedi bod yn glir a chyson na all Brexit arwain at wanhau'r hawliau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth y DU o'r UE yn awr. Rydym yn cytuno bod yn rhaid i'n dinasyddion barhau i gael cyfle i herio gweithredu deddfwriaeth amgylcheddol ond ni fyddem yn gwahaniaethu rhwng deddfwriaeth amgylcheddol, sy'n gysylltiedig â'r Fframweithiau Cyffredinol, a deddfwriaeth, nad yw'n gysylltiedig â'r Fframweithiau hynny.

Rydym eisoes wedi gwneud ymrwymiad i fynd i'r afael â bylchau llywodraethu a fydd yn ganlyniad i'r ffaith bod y DU yn gadael Ewrop ac rydym wedi cydnabod bod cyfle i ddinasyddion herio gweithrediad cyfreithiau amgylcheddol yn un o'r bylchau hynny.

Hyd nes y darperir rhagor o wybodaeth am fanylion cynigion Llywodraeth y DU a hyd nes y bydd ein dadansoddiad ni ein hunain wedi'i gwblhau, gan gynnwys trafodaethau gyda'n rhanddeiliaid yng Nghymru, mae'n rhy gynnar rhoi ymateb pendant i'r cwestiwn ai dull o weithredu ar lefel y DU gyfan yw'r ateb mwyaf priodol. Byddwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor pan fyddwn yn penderfynu a yw dull o weithredu ar lefel y DU gyfan yn briodol ai peidio. Felly, er ein bod yn cytuno ag ysbryd yr argymhelliad, nid ydym yn gallu llwyr dderbyn yr argymhelliad yn ei gyfanrwydd ar hyn o bryd.

Nid ydym yn rhagweld proses gwyno ar wahân i ddinasyddion ar gyfer y Fframweithiau Cyffredin ond yn hytrach un system gwyno glir a hygyrch a fydd yn galluogi dinasyddion i herio gweithrediad deddfwriaeth amgylcheddol.

Fel yr amlinellwyd gennym yn ein hymateb i Adroddiad y Pwyllgor ar drefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol yn dilyn Brexit, rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried yr opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r bylchau llywodraethu.

Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill am y posibilrwydd o fabwysiadu dull gweithredu ar lefel y DU gyfan, ac am yr hyn y gallai hynny ei olygu. Ar hyn o bryd, mae angen rhagor o wybodaeth am fanylion cynigion Llywodraeth y DU, yn benodol o ran meysydd 'a gedwir yn ôl', fel y bo modd penderfynu a yw'r cynigion hynny'n sail addas ar gyfer mabwysiadu dull gweithredu ar lefel y DU gyfan a fydd yn caniatáu i ddinasyddion gyflwyno cwynion.

Mae'r bylchau yng Nghymru yn wahanol i'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU, oherwydd natur y cytundebau datganoli a'r dirwedd ddeddfwriaethol unigryw sydd gennym yma yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

**<u>Argymhelliad 9</u>**

**Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y pwyntiau a nodir gan randdeiliaid ym mharagraffau 26-47 o'r adroddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael eu datrys mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch fframweithiau cyffredin.**

**Ymateb: Derbyn**

Fel y nodwyd yn yr ymatebion i'r argymhellion eraill, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal trafodaethau cychwynnol gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar feysydd cyffredin. Er hynny, bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod y materion a godir o fewn paragraffau 26-47 yr adroddiad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn y trafodaethau hyn.

Yn unol â'r ymateb i Argymhelliad 7, mae barn rhanddeiliaid ar y polisïau sy'n datblygu yn hollbwysig wrth siapio'r trafodaethau ar y Fframweithiau Cyffredinol. Hefyd, wrth i gynigion gael eu datblygu ym mhob maes, rydym yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol, a fydd yn darparu cyfle pellach i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan randdeiliaid.

Mae camsyniad yn bodoli y bydd canlyniad y trafodaethau ar y Fframwaith Cyffredin yn arwain at 'israddio' meysydd polisi sy'n cael eu hategu gan ddeddfwriaeth yn awr. Nid yw hyn yn wir. Bydd y ddeddfwriaeth yn parhau yn y meysydd nad ydynt wedi'u rhestru ymhlith y 24 yn awr, er enghraifft Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac Asesiad Amgylcheddol Strategol. Byddai pob Gweinyddiaeth yn parhau i allu cyflwyno eu deddfwriaethau eu hunain fel y gallant yn awr, oherwydd ni fydd y meysydd hyn yn wahanol i unrhyw faes arall o gymhwysedd datganoledig.

Yn ogystal, mae'n bosibl bod yna feysydd nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr a allai ddatblygu yn Fframwaith Cyffredinol yn y dyfodol.

O ran materion a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU yn awr i ddeall eu rhesymeg pam eu bod yn credu bod rhai meysydd yn rhai a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, dylai'r meysydd hynny sydd wedi'u datganoli'n llwyr yn awr, gan gynnwys amaethyddiaeth a'r amgylchedd, barhau felly. Fel y mae Egwyddorion y JMC yn datgan, ac y mae Llywodraeth y DU wedi cytuno arnynt ar y cyd, bydd y fframweithiau yn parhau'r cytundebau datganoli ac atebolrwydd democrataidd y deddfwrfeydd datganoledig, ac felly byddant yn:

- seiliedig ar gonfensiynau ac arferion sefydledig, gan gynnwys, ni fydd cymhwysedd y sefydliadau datganoledig yn cael eu haddasu fel arfer heb eu cydsyniad;
- cynnal, fel isafswm, hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer teilwra polisïau i anghenion penodol pob gwlad a ganiateir gan reolau presennol yr UE;
- arwain at gynnydd sylweddol ym mhwerau'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar gyfer gwneud penderfyniadau.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim

Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig – 6 Medi 2018

Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023 a Chynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2019

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

9 Awst 2018

Annwyl Lesley,

**Cyflawni ein llwybr carbon isel i 2030**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig wedi ymddiddori'n frwd yn y dull o weithredu a chyflawni Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ('y Ddeddf') sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu cyllidebau carbon bob pum mlynedd.

Rwy'n falch o weld cyhoeddi ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar leihau allyriadau – 'Cyflawni ein llwybr carbon isel i 2030'[1].

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio adroddiad sy'n manylu ar y polisïau a'r cynigion a fydd yn cyflawni'r gostyngiadau sy'n ofynnol o ran y cyllidebau carbon mewn perthynas â phob maes portffolio. Nodaf y bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i helpu i ddatblygu'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel cyntaf, a gyhoeddir ym mis Mawrth 2019, a fydd yn llywio'r gyllideb garbon gyntaf.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Llywodraeth y bydd y Cynulliad yn craffu ar y cyllidebau carbon. Er mwyn ymgymryd â'n rôl graffu'n briodol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r adroddiad sy'n pennu'r cynigion a'r polisïau ar gyfer bodloni'r cyllidebau carbon fod ar gael ochr yn ochr â'r rheoliadau drafft fel a ganlyn:

---

[1] https://beta.llyw.cymru/llwybr-carbon-isel-i-gymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

- dylai fod ar gael ar yr un pryd â'r rheoliadau drafft ar y cyllidebau carbon;
- dylai roi dadansoddiad yn ôl sector, yn ogystal â dadansoddiad yn ôl pob portffolio Gweinidogol; a
- dylai gynnwys asesiad ac amcangyfrif o effaith pob cynnig neu bolisi ar y gyllideb garbon.

Rwy'n ysgrifennu'n gynnar er mwyn sicrhau bod gennych amser i drafod y ceisiadau hyn.

Ar ôl cyhoeddi'r wybodaeth hon, byddwn yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid. Mae'n bwysig sicrhau bod gan y Pwyllgor ddigon o amser i ymgymryd â'n rôl graffu, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi amserlen amlinellol o ran pryd y bydd y rheoliadau a'r wybodaeth ategol yn cael eu cyhoeddi.

Yn gywir,

**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/LG/3010/18

Mike Hedges AC
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Medi 2018

Annwyl Mike,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 09 Awst 2018 ar ran y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynglŷn â gwaith craffu'r Cynulliad ar y Rheoliadau Cyllidebu Carbon.

O ran datblygu'r rheoliadau ategol, rwyf wedi rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor drwy gydol y Rhaglen. Cyn lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig a oedd yn nodi penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â phennu targedau lleihau allyriadau interim ar gyfer 2020, 2030 a 2040, a lefel y ddwy gyllideb garbon gyntaf. Mae'r Rheoliadau hyn a'r Memorandwm Esboniadol bellach yn cael eu drafftio i'w trafod yn y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr. Rydym bellach yn canolbwyntio ar nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd drwy ein Cynllun Cyflawni.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn destun proses adolygu yn ymwneud â'r weithdrefn archwilio ar gyfer pennu ein cyllidebau carbon a'r Cynllun Cyflawni drwy ddatblygu Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. O ganlyniad i broses y Cynulliad, mae'r Ddeddf yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru bennu ein cyllidebau carbon mewn rheoliadau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2018 a phan fydd cytundeb ar y gyllideb, byddwn wedyn yn cyhoeddi Cynllun cyflawni sy'n cwmpasu cyfnod cyntaf y gyllideb. Nid yw'n ymarferol cyhoeddi Cynllun cyflawni nes bod uchafswm y gyllideb garbon wedi'i bennu ac mae hynny'n amodol ar weithdrefn gadarnhaol y Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn benodol, mae adran 39 o'r Ddeddf yn darparu amser yn dilyn pennu ein cyllidebau carbon i ddatblygu, a chyhoeddi, polisïau a chynigion i gyflawni'r ymyriadau. Mae'r Ddeddf yn darparu hyd at 12 mis ar gyfer cyllidebau carbon yn y dyfodol sy'n gyson â'r dulliau a fabwysiadwyd yn yr Alban a chan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, gan gydnabod ein bod eisoes yn y cyfnod cyllidebol cyntaf, cyflwynwyd cymal, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn pennu'r gyllideb garbon gyntaf. Rwyf eisoes wedi dod â'r dyddiad cyhoeddi yn ei flaen i gydnabod y brys ac rwyf eisoes wedi ymrwymo'n gyhoeddus i gyhoeddi'r adroddiad cyn diwedd mis Mawrth 2019.

Craffwyd ar y ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun drwy broses y Cyfarfod Llawn ac o fewn y Pwyllgor pan oedd ar ffurf Bil drafft, lle y cytunwyd ar y broses uchod ac yn dilyn hynny rydym wedi datblygu ein fframwaith cyfan ar y sail hon.

Nid yw cyhoeddi'r Cynllun Cyflenwi Carbon Isel cyn cytuno ar y rheoliad cyllideb garbon gyntaf, a thri mis yn gynnar, yn ymarferol ac nid yw'n cyd-fynd ag ysbryd y Ddeddf. Felly, ni fyddaf yn cyhoeddi'r Cynllun ochr yn ochr â'r Rheoliadau ym mis Rhagfyr.

Fodd bynnag, mae sawl ffordd i'r Pwyllgor gyfrannu at hyn, megis drwy ein Hymgynghoriad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n nodi llawer iawn o gyd-destun a rhesymeg ar gyfer ein dull strategol arfaethedig. Mae dau ddigwyddiad rhanddeiliad yn cael eu cynnal i gefnogi'r ymgynghoriad. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ffurfio un haen o dystiolaeth, a fydd yn sail i'n dadansoddiad. Mae hyn yn rhedeg ochr yn ochr â rhaglen gynhwysfawr o waith sy'n gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru sy'n edrych ar ymyriadau polisi carbon isel.

Byddaf hefyd yn gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn ym mis Medi ar ôl y Pwyllgor Craffu yn gynharach eleni.

Mae datblygu fframwaith polisi i fodlon ein hamcanion dadgarboneiddio, ac amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, yn her gyffrous ac yn un yr wyf wedi ymrwymo iddi. Fodd bynnag, mae hefyd yn gymhleth. Mae rhai heriau penodol yng Nghymru yn ymwneud â chyflawni ein huchelgeisiau carbon isel, a'r her fwyaf yw maint ein sector diwydiannol. Fodd bynnag, gallai'r heriau hefyd gynnig cyfleoedd sylweddol i Gymru gyda'r ymateb polisi cywir.

Mae'n ddyletswydd arnaf i sicrhau bod y fframwaith polisi yn addas at y diben ac yn dod â'r gwerth mwyaf i ddinasyddion Cymru yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru

22 Awst 2018

Annwyl Lesley

**Llywodraeth Cymru YMGYNGHORIAD AR FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL**

Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig weithdy ar 28 Mehefin 2018 i randdeiliaid i drafod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) i Gymru.

Clywsom hefyd gan John Davies, cyn-Gadeirydd y Grŵp Cynghori Annibynnol ar Ddiwygio'r System Gynllunio yng Nghymru, a Neil Harris o Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd, yn ein cyfarfod ar 14 Mehefin. Rwy'n ddiolchgar i swyddogion eich adran hefyd am ddod i'r cyfarfod ar 14 Mehefin i'n briffio ynghylch y FfDC. Roedd yn hynod o addysgiadol a hoffwn ofyn i chi roi ein diolchiadau iddynt.

Roedd y rhai y gwnaethom ni glywed ganddynt yn ystod ein gwaith yn canmol faint y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu yn ystod proses y FfDC hyd yn hyn, a natur y gwaith ymgysylltu hwn. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y lefel hon o ymgysylltiad yn parhau wrth i fersiynau pellach gael eu llunio.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod drafftio'r FfDC yn broses a fydd yn parhau tan 2020, a bod yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC a drafodwyd yn ddogfen lefel uchel. Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd at y pwnc hwn er mwyn craffu ar y FfDC drafft yn fanylach pan gaiff ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

Cododd y trafodaethau a gawsom gyda rhanddeiliaid nifer o faterion yr oedd y Pwyllgor am fynd i'r afael â nhw.

1. **Strwythur yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC**

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod y ddogfen, fel y'i drafftiwyd, yn rhy gymhleth a bod ganddi ormod o haenau. Roedden nhw'n dweud y dylai fod mwy o ffocws i'r ddogfen yn hytrach na bod ganddi weledigaeth, amcanion a themâu, ac y byddai'n anodd i bobl nad ydynt yn rhan o'r system gynllunio, ond y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, fynd i'r afael â hi a'i deall.

Er enghraifft, mae pedair prif elfen i weledigaeth y FfDC: lleoedd unigryw a naturiol; lleoedd cynhyrchiol a mentrus; lleoedd actif a chymdeithasol, a rhanbarthau ffyniannus, nodedig ac amrywiol. Hefyd, mae gan y FfDC 27 o amcanion sydd wedi'u nodi o dan benawdau sydd ychydig yn wahanol, ond sy'n amlwg yn gysylltiedig â phedwar maes y weledigaeth. Yn olaf, yr opsiwn a ffefrir: cyflwynir Lleoedd Cynaliadwy o dan bum 'maes' sy'n debyg i'r pedwar 'pennawd thematig' ym Mholisi Cynllunio Cymru - Creu Lleoedd; Lleoedd Unigryw a Naturiol; Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus; Lleoedd Actif a Chymdeithasol; a Rhanbarthau Cymru.

*A oes unrhyw fwriad i symleiddio'r ffordd y caiff y ddogfen ei chyflwyno?*

2. **Y synergedd rhwng yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC a pholisïau eraill**

**Polisi Cynllunio Cymru (PPW)** - Roedd rhai rhanddeiliaid yn aneglur sut y byddai'r PPW a'r FfDC yn integreiddio ac yn cyd-fynd â'i gilydd. Roeddent yn gofyn am eglurder ynghylch sut y mae disgwyl i'r ddwy ddogfen gydweithio.

Gofynnodd rhanddeiliaid am ragor o fanylion ynghylch sut y bydd yr ymgynghoriad ar y PPW Argraffiad 10 newydd yn effeithio ar y gwaith o ddrafftio'r FfDC. Rydym yn cael ar ddeall bod disgwyl cyhoeddi'r PPW newydd cyn diwedd y flwyddyn. Holodd y rhanddeiliaid a fyddai unrhyw faterion arwyddocaol o'r ymgynghoriad ar FfDC yn golygu y byddai'n rhaid ailddrafftio PPW ac i'r gwrthwyneb.

**Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol** – roedd ein rhanddeiliaid yn gofyn a yw'r rheini sy'n drafftio'r FfDC wedi gweithio gyda'r swyddogion sy'n bwrw ymlaen â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC). Mae CSCC yn gyfrifol am gynghori Gweinidogion Cymru ynghylch anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol Cymru dros y 30 mlynedd nesaf. Mae'r Pwyllgor yn deall nad yw Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr penodedig eto wedi cytuno ar drefniadau gweithio manwl CSCC drwy ddogfen gyfansoddiad.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru drafft** – hoffai ein rhanddeiliaid weld mwy o fanylion ynghylch sut y caiff y FfDC ei integreiddio â'r Cynllun Morol a sut y caiff pob un ei ddiwygio wrth iddynt gael eu diweddaru.

**Datganiadau ardal** – hoffai ein rhanddeiliaid wybod sut y bydd y Datganiadau Ardal a gynhyrchir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn bwydo'r broses o ddrafftio'r FfDC.

**Cynlluniau Llesiant** – roedd ein rhanddeiliaid yn gofyn ynghylch a ddefnyddiwyd y dystiolaeth o'r Asesiadau Llesiant wrth ddrafftio'r opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC. Roedd hefyd yn gofyn a fydd y FfDC drafft yn tynnu ar y sail dystiolaeth hon yn y dyfodol.

*Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwaith CSCC ac egwyddorion y FfDC yn dylanwadu ar ei gilydd?*

*A fydd PPW Argraffiad 10 yn cael ei ailddrafftio yng ngoleuni proses y FfDC, ac i'r gwrthwyneb?*

*Beth yw'r mecanweithiau ar gyfer sicrhau bod y FfDC a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn dylanwadu ar ei gilydd ac yn datblygu ei gilydd?*

*Beth yw'r sail dystiolaeth ar gyfer y diwygiadau manwl o'r opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC, ac a fydd yn tynnu ar y Cynlluniau Llesiant a'r Datganiadau Ardal?*

## 3. Creu Lleoedd

Roedd y rhanddeiliaid yn hoff iawn o'r cysyniad o greu lleoedd.

Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo y dylai'r diffiniad roi mwy o bwyslais ar bobl a chymunedau, gan gynnwys canolbwyntio ar bwysigrwydd cartrefi a swyddi ar gyfer creu lleoedd llwyddiannus.

Awgrymwyd y byddai Cynlluniau Lleoedd yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer cynnwys cymunedau yn y gwaith o greu lleoedd a llywio anghenion tai lleol.

*A oes unrhyw fwriad i adolygu cwmpas y diffiniad o greu lleoedd mewn fersiynau yn y dyfodol?*

4. **Cynllunio rhanbarthol**

Mae'r opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC yn gosod cyfeiriad ar gyfer tri rhanbarth i Gymru - y Gogledd, y Canolbarth a'r De-orllewin, a'r De-ddwyrain.

Fodd bynnag, roedd y gwaith ymchwil gan Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd yn awgrymu pedwar rhanbarth yn y FfDC.

Mae'r Pwyllgor yn deall bod y tri rhanbarth yn yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC yn cyd-fynd â'r rheiny yn 'Ffyniant i bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi', ond mae ein rhanddeiliaid yn argymell y dylid rhannu rhanbarth y Canolbarth a'r De-orllewin i greu pedwar rhanbarth.

*Beth yw'r rhesymeg dros gynnwys y tri rhanbarth a ddisgrifir yn 'Ffyniant i bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi?' A fydd fersiynau o'r FfDC yn y dyfodol yn edrych ato ar nifer y rhanbarthau?*

Rydym yn cydnabod yr angen i waith cynllunio ar lefel ranbarthol ymdrin â materion sy'n croesi ffiniau awdurdodau cynllunio lleol, ac rydym yn pryderu nad yw Cynlluniau Datblygu Strategol (CDY) yn cael eu datblygu. Roedd rhanddeiliaid yn pryderu y gallai hyn olygu y bydd y FfDC yn mynd i'r afael â materion y byddai'n well i'r CDY fynd i'r afael â hwy.

*Cafwyd galwad am eglurder ynghylch rôl y rhanbarthau a nodir yn y FfDC.*

*Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni Cynlluniau Datblygu Strategol?*

**Tai**

Bydd y FfDC “yn nodi rhagamcaniad tai a phoblogaeth ar sail polisi cenedlaethol, a fydd yn cynnwys ystod Cymru gyfan o ffigurau tai ar gyfer cyfnod y cynllun”.

Roedd pryder y gellid dehongli'r 'ystod o ffigurau tai' fel targed. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn pryderu bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn y ddogfen yn awgrymu dull gweithredu o'r brig i lawr yn hytrach nag o'r gwaelod i fyny. Roeddent am weld ffigurau tai sy'n seiliedig ar angen lleol ac yna'n cael eu cyfuno i greu'r ffigurau rhanbarthol a chenedlaethol.

Dywedodd rhanddeiliaid hefyd y dylai'r ffigurau tai yn y FfDC adlewyrchu gwahanol fathau o dai i adlewyrchu anghenion tai lleol, fel ar gyfer tai cymdeithasol a fforddiadwy.

*A oes unrhyw fwriad i egluro'r iaith sy'n cyfeirio at yr 'ystod o ffigurau tai'?*

*I ba raddau y bydd anghenion tai lleol yn pennu'r ffigur tai cenedlaethol yn y ddogfen derfynol?*

5. **Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig**

Mae'r FfDC yn cynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig sy'n cwmpasu asesiadau statudol ac anstatudol.

Cydnabuwyd y dylai'r dull hwn gynnig gwerthusiad mwy integredig ac arbed amser ar nifer o asesiadau. Fodd bynnag, roedd pryder y gallai'r asesiadau statudol gael eu 'gwanhau' oherwydd yr ymagwedd gyfunol hon, a all adael y broses yn agored i her gyfreithiol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau RSPB Cymru bod yr Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cael ei integreiddio yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Hoffem weld rheoliadau yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cael eu trin mewn ffordd fwy trylwyr ac rydym yn teimlo y byddai hyn yn gyfle i chi ddangos sut y mae'r cynllun yn mynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

*Pa ystyriaeth a roddwyd i argymhelliad yr RSPB y dylid atodi 'Adroddiad Amgylcheddol' at bob fersiwn o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yn y dyfodol.*

Cydnabuwyd ei bod yn anodd cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o ystyried natur uchel yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC.  Fodd bynnag, roedd y rhanddeiliaid yn teimlo bod diffyg ymgysylltiad â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd oherwydd mai ymgynghorwyr oedd wedi'i lunio.

*Ai'r bwriad yw defnyddio ymgynghorwyr i lunio fersiwn nesaf yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd? Os felly, pa fecanweithiau sydd ar gael i randdeiliaid gymryd rhan yn y broses hon?*

## 6. Asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg

Cydnabu ein rhanddeiliaid bod cynnal asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg yn ddisgyblaeth newydd yn ein system gynllunio.

Nodwyd nad yw arbenigedd yn y maes hwn wedi'i ddatblygu cystal ag mewn meysydd eraill, fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol. O gofio y bydd gan y proffesiwn cynllunio lai o brofiad o'r asesiadau hyn – o ran eu cyflawni ac o ran dehongli eu casgliadau – argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru arwain y gwaith o ddatblygu arbenigedd yn y maes hwn.

*A fydd Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu'r arbenigedd mewn awdurdodau lleol ar yr asesiadau hyn ac wedyn yn cyhoeddi canllawiau ac enghreifftiau o arfer gorau? A all Llywodraeth Cymru gynnig enghreifftiau rhyngwladol sydd wedi bod yn llwyddiannus?*

Gan fod cynllunio yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, byddwn yn parhau i graffu ar y FfDC wrth iddo ddatblygu.  Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau yn y llythyr hwn erbyn 17 Medi 2018 er mwyn llywio ein gwaith.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-3052-18

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

10 Medi 2018

Annwyl Mike,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 22 Awst ynglŷn â'r ystyriaeth y mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd wedi ei rhoi i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC). Rwy'n croesawu rôl y Pwyllgor o ran llywio'r Fframwaith ac yn edrych ymlaen at weithio gyda chi wrth i'r gwaith o'i baratoi fynd rhagddo.

Mewn ymateb i'ch cwestiynau:-

*A oes unrhyw fwriad i symleiddio'r ffordd y caiff y ddogfen ei chyflwyno?*
Roedd fersiwn ddrafft yr Opsiwn a Ffefrir yn nodi cwmpas a chynnwys arfaethedig y FfDC. Daeth amrywiaeth o sylwadau i law yn sgil yr ymgynghoriad ar y berthynas rhwng Polisi Cynllunio Cymru (PPW) a'r FfDC, ac ar y ffordd o fynd ati i gyflwyno polisïau a chynnwys yn nogfen yr FfDC yn y dyfodol. Byddaf yn adlewyrchu ar y sylwadau hyn pan fyddaf yn ystyried yr FfDC Drafft ac rwy'n hyderus bod modd symleiddio'r ddogfen i gyd-fynd â PPC.

*Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod gwaith Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (CSCC) ac egwyddorion y FfDC yn dylanwadu ar ei gilydd?*
Mae'r gwaith o sefydlu CSCC wedi symud yn ei flaen yn ystod y misoedd diwethaf. Yn ddiweddar, penodwyd Mr John Lloyd Jones OBE, FRAgS, Hon FLI yn Gadeirydd a deallaf fod y broses o benodi comisiynwyr ar waith. Bydd fy swyddogion yn cwrdd â Mr Jones ym mis Medi i roi manylion iddo am waith paratoi'r FfDC a sefydlu mecanweithiau i weithio gyda'n gilydd.

Bydd CSCC yn darparu cyngor arbenigol a diduedd i Lywodraeth Cymru am anghenion Cymru yn yr hirdymor o ran ei seilwaith economaidd ac amgylcheddol strategol dros gyfnod o bump i 30 mlynedd. Bydd hefyd yn ystyried sut y bydd yr anghenion hyn yn cyd-fynd a'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

seilwaith cymdeithasol megis ysgolion, ysbytai a thai. Gall fersiynau o'r FfDC yn y dyfodol gynnwys argymhellion CSCC lle bo'n briodol. Yn y tymor byr, rwyf wedi gofyn i swyddogion drafod gyda Mr Jones sut y bydd y FfDC ac Adroddiad Cyflwr y Genedl, ac yn enwedig y dystiolaeth a'r gwaith ymgysylltu sy'n ategu'r dogfennau hyn, yn cael eu rhannu, a lle bo'n briodol, eu datblygu gyda'i gilydd.

*A fydd PPW Argraffiad 10 yn cael ei ailddrafftio yng ngoleuni proses y FfDC, ac i'r gwrthwyneb?*
Bwriedir cyhoeddi Argraffiad 10 diwygiedig o PPW erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd PPW yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r FfDC ar ôl ei gyhoeddi yn 2020. Bydd PPW hefyd yn cael ei ddiweddaru rhwng fersiynau o'r FfDC i gynnwys blaenoriaethau Gweinidogol. Mae'n bosibl y bydd unrhyw Fframweithiau yn y dyfodol yn gweithredu ar sail ofodol mewn ymateb i ddatblygiadau polisïau newydd yn PPW fel rhan o broses esblygol ac ailadroddol.

*Beth yw'r mecanweithiau ar gyfer sicrhau bod y FfDC a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn dylanwadu ar ei gilydd ac yn datblygu ei gilydd?*
Fel Ysgrifennydd y Cabinet sy'n gyfrifol am y FfDC a'r Cynllun Morol, rwy'n cydnabod ei bod yn bwysig bod y cynlluniau yn cyd-fynd â'i gilydd i gyflawni ein nodau cenedlaethol. Er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu datblygu ac yn dylanwadu ar ei gilydd, rwyf wedi gofyn i swyddogion arweiniol weithio gyda'i gilydd a pharhau i hoelio sylw ar y berthynas rhwng ein fframweithiau cynllunio morol a daearol cenedlaethol. Ar sail ffurfiol, mae swyddogion cynllunio yn aelodau o'r Bwrdd Llywodraethu Morol ac mae swyddogion morol yn aelodau o Fwrdd Rhaglen y FfDC. Mae swyddogion cynllunio a morol yn mynychu digwyddiadau ymgysylltu, gweithdai a gweithgareddau tebyg ei gilydd yn rheolaidd i drafod gyda rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y ddau faes. Yn anffurfiol, cynhelir rhaglen o gyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion i drafod materion cyffredin ac i sicrhau bod y ddau gynllun yn cyd-fynd â'i gilydd.

Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ar gyfer y FfDC ac Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Morol yn ddulliau sy'n helpu i sicrhau bod y cynlluniau yn cyd-fynd â'r gilydd. Mae'r asesiadau hyn yn ein galluogi i ddeall effeithiau cadarnhaol a negyddol cynlluniau yn drylwyr i sicrhau eu bod mor gynaliadwy â phosibl. Mae hyn yn cynnwys asesu a ydynt yn annog cydweithio a gwneud penderfyniadau mewn ffordd integredig ar draws ffiniau ac mewn achosion lle mae meysydd morol a daearol yn gorgyffwrdd.

Bydd y FfDC Drafft yn cynnwys manylion pellach ar y berthynas rhwng y FfDC a'r Cynllun Morol Cenedlaethol.

*Beth yw'r sail dystiolaeth ar gyfer y diwygiadau manwl o'r opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC, ac a fydd yn tynnu ar y Cynlluniau Llesiant a'r Datganiadau Ardal?*
Y brif sail dystiolaeth ar gyfer diwygio'r dull a nodir yn fersiwn ddrafft yr Opsiwn a Ffefrir fydd yr ymatebion a fydd yn dod i law yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r Cynlluniau Llesiant a'r Datganiadau Ardal yn bwysig a byddant yn llywio'r gwaith o baratoi'r FfDC Drafft.

*A oes unrhyw fwriad i ddiwygio cwmpas y diffiniad o greu lleoedd mewn fersiynau yn y dyfodol?*
I sicrhau bod ein polisi cynllunio yn eglur a chyson, bydd y FfDC yn defnyddio'r un diffiniad o greu lleoedd â PPW a fydd yn cael ei gyhoeddi ddiwedd y flwyddyn.

*Beth yw'r rhesymeg dros gynnwys y tri rhanbarth a ddisgrifir yn 'Ffyniant i bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi'?*
Ffyniant i Bawb: Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi'r pwysigrwydd o weithio'n gyson ar sail ranbarthol a bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno model newydd o ddatblygu'r economi a fydd yn seiliedig ar weithio’n rhanbarthol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn nodi tri rhanbarth a fydd yn sail i'r dull gweithredu rhanbarthol hwn – y Gogledd, y Canolbarth a’r

De-orllewin a’r De-ddwyrain – a'r rhesymeg drostynt. Bydd y Cynllun hwn yn sicrhau bod y model rhanbarthol yn cael ei ddatblygu. Bydd yn creu rhwydweithiau o randdeiliaid mewn rhanbarthau a fydd yn gysylltiedig â llywodraeth. Byddant yn cyflawni ein hamcanion a'n blaenoriaethau rhanbarthol, ac yn helpu i sicrhau:-

- Bod datblygiadau economaidd yn cael eu cynllunio mewn ffordd gydgysylltiedig.
- Cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol cryfach.
- Gwell trafnidiaeth integredig.
    - Bod amrywiaeth o faterion o ddefnydd tir i dai i sgiliau yn cael eu cynllunio’n strategol.
- Mwy o gydweithio ar draws ffiniau ac mewn perthynas â'r economi.

Er mwyn gweithredu'r dull llywodraethu cydgysylltiedig a nodir yn y Strategaeth Genedlaethol ac er mwyn sicrhau'r nifer mwyaf o gyfleoedd drwy weithio gyda strategaethau allweddol megis y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, credaf ei bod yn briodol i'r FfDC gael ei ddatblygu ar sail yr un cynllun tri rhanbarth.

Wrth ystyried rhinweddau'r cynllun hwn, roeddwn o’r farn y gallai fod angen datrysiadau gwahanol i sicrhau gwell cynllunio rhanbarthol o fewn rhanbarthau gwahanol. Er enghraifft, mewn un rhanbarth gallai fod yn briodol paratoi Cynllun Datblygu Strategol sengl. Mewn rhanbarthau eraill, gallai fod yn fwy priodol cael mwy nag un Cynllun Datblygu Strategol neu gyfuniad o Gynllun Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd. Y canlyniad allweddol yw sicrhau bod materion cynllunio strategol yn cael eu nodi a'n bod yn cynllunio ar eu cyfer ond eu bod ar yr un pryd yn rhan o'r model 3 rhanbarth. Byddaf yn adlewyrchu ymhellach ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y mater hwn ac rwy'n cydnabod, fel yn achos unrhyw ddulliau rhanbarthol arfaethedig, y bydd amrywiaeth o farn yn dod i law.

*A fydd fersiynau o'r FfDC yn y dyfodol yn edrych eto ar nifer y rhanbarthau?*
Bydd fersiynau o'r FfDC yn y dyfodol yn cael edrych eto ar nifer y rhanbarthau.

*Cafwyd galwad am eglurder ynghylch rôl y rhanbarthau a nodir yn y FfDC.*
Bydd y FfDC Drafft yn cyfleu darlun mwy llawn o'r polisïau gofodol a'r prosiectau mewn perthynas â phob rhanbarth. Bydd ymarfer casglu tystiolaeth a fydd yn cael ei brofi gan rhanddeiliaid yn llywio'r darlun hwn.

*Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni Cynlluniau Datblygu Strategol?*
Yn ystod hynt y Bil Cynllunio drwy'r Cynulliad, cafwyd cefnogaeth eang i gyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol. Cydnabuwyd nad yw'r model cynllunio datblygiadau haen sengl sy'n seiliedig ar Gynlluniau Datblygu Lleol yn mynd i'r afael â materion cenedlaethol a rhanbarthol yn ddigonol. Cyflwynodd y Ddeddf Cynllunio'r FfDC a'r Cynlluniau Datblygu Strategol o ganlyniad i hynny. Credaf fod y Cynlluniau hyn yn gallu ein helpu i gyflawni canlyniadau gwell, gan ein helpu i gynllunio ar gyfer materion strategol sy'n ymwneud â thai, trafnidiaeth, yr amgylchedd a'r economi. Mae’r materion hyn yn cael eu deall yn well ar lefel ranbarthol.

Rwy'n parhau i feddwl ei bod yn well i Awdurdodau Cynllunio Lleol baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ar sail wirfoddol. Mae ymrwymiad ar y cyd at baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol yn rhoi'r platfform orau inni fedru symud ymlaen, gan alluogi Awdurdodau Cynllunio Lleol i lywio eu datblygiad. Ysgrifennais at Awdurdodau Cynllunio Lleol y llynedd yn eu hannog i weithio gyda'i gilydd ar Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar y cyd. Cefais sicrwydd gan yr awdurdodau hynny bod ganddynt y gallu i lunio Cynlluniau Datblygu Lleol unigol os oes mwy o gydweithio gwirfoddol yn digwydd rhwng awdurdodau. Rwy'n parhau i gefnogi awdurdodau lleol yn y De-ddwyrain i gyflwyno

Cynllun Datblygu Strategol ac rwy'n obeithiol y byddant yn cyflwyno eu cynnig imi yn hwyrach eleni.

Mae'n bwysig bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cynllunio ar gyfer materion rhanbarthol ac yn mynd i'r afael â hwy. Gall y FfDC chwarae rôl bwysig yn hynny o beth a byddaf yn gweithio gyda nhw i ystyried hyn wrth inni baratoi'r FfDC Drafft.


*A oes unrhyw fwriad i egluro'r iaith sy'n cyfeirio at yr 'ystod o ffigurau tai'?*
Mae fy swyddogion yn gweithio ar hyn ar hyn o bryd ac yn datblygu proses newydd ar gyfer asesu anghenion o ran tai a'r galw amdanynt i ddarparu ffigurau ar gyfer y FfDC. Bydd y FfDC Drafft yn rhoi cyd-destun i'r ffigurau hyn.

*I ba raddau y bydd anghenion tai lleol yn pennu'r ffigur tai cenedlaethol yn y ddogfen derfynol?*
Diben y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yw datblygu methodoleg a all ddarparu ystod o ffigurau tai ar amrywiaeth o lefelau mewn ffordd gyson. Bydd hyn yn ychwanegol i unrhyw ffigur a gafwyd yn lleol o ran anghenion tai a allai lywio proses y Cynllun Datblygu Strategol neu'r Cynllun Datblygu Lleol.

*Ai'r bwriad yw defnyddio ymgynghorwyr i lunio fersiwn nesaf yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd? Os felly, pa fecanweithiau sydd ar gael i randdeiliaid gymryd rhan yn y broses hon?*
Rydym wedi trafod gydag ymgynghorwyr sy'n arbenigo mewn Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn iddynt helpu gyda'r gwaith o baratoi Asesiad o'r fath ar gyfer y FfDC. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud yn unol â'r gofynion statudol. Wrth inni symud ymlaen, bydd rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y gwaith o gynhyrchu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ym mhob cam o broses y FfDC.

*A fydd Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu'r arbenigedd mewn awdurdodau lleol ar yr asesiadau hyn ac wedyn yn cyhoeddi canllawiau ac enghreifftiau o arfer gorau?*
Fel rhan o broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig, bydd y FfDC yn ddarostyngedig i Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith. Bydd yr asesiad ar ffurf sy'n addas a phriodol i gynllun cenedlaethol. Bydd yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol ac yn destun ymgynghoriad. Dylai asesiadau Cynlluniau Datblygu Lleol hoelio mwy o sylw ar faterion lleol a gallant fod yn fwy manwl. Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 yn cynghori ar ffynonellau tystiolaeth a methodoleg, ac rydym yn parhau i annog awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i fireinio eu dulliau i adlewyrchu amgylchiadau lleol.

*A all Llywodraeth Cymru gynnig enghreifftiau rhyngwladol sydd wedi bod yn llwyddiannus?*
Wrth i waith ar y FfDC fynd rhagddo, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i elwa ar arferion gorau o ran ffurf a chynnwys cynlluniau gofodol cenedlaethol, gan gynnwys cynlluniau tebyg yn yr Alban ac Iwerddon. Bydd hyn yn cynnwys sut yr aeth y cynlluniau hyn i'r afael â materion ieithyddol.



**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon